Cyllid & Thollau EM

Nodiadau ar TRAMOR

CYNNWYS

Cwblhau eich Tudalennau Tramor	FN1
Rhan 1 - nodi eich incwm tramor a gwneud cais am ryddhad credyd treth dramor	FN2
Sail codi	FN2
Sail taliad	FN2
Cyd-gynilion a chyd-fuddsoddiadau	FN2
Incwm na ellir ei drosglwyddo i'r DU	FN2
Incwm yn dod yn incwm y gellir ei drosglwyddo	FN2
Incwm tramor: newid i sterling	FN2
Treth dramor a dalwyd a rhyddhad credyd treth dramor	FN2
Treth Ataliedig Arbennig	FN3
Cytundebau Trethiant Dwbl	FN3
Cwblhau Tudalennau F1 ac F2	FN3
Cynilion tramor	FN4
Llog ac incwm arall o gynilion tramor	FN4
Difidendau a dosbarthiadau o ffynonellau tramor	FN5
Pensiynau a budd-daliadau tramor	FN5
Pensiynau tramor	FN5
Budd-daliadau nawdd cymdeithasol tramor	FN6
Incwm o dir ac eiddo tramor	FN6
Sail Taliad	FN7
Sail Codi	FN7
Cwblhau tudalen F4	FN7
Incwm	FN7
Treuliau	FN8
Addasiadau treth	FN9
Cwblhau Tudalen F5	FN10
Incwm a dderbyniwyd gan ymddiriedolaethau, cwmnïau ac endidau eraill dramor	FN11
Incwm arall o dramor	FN11
Cael gwared ar daliadau mewn cronfeydd alltraeth	FN11
Incwm o ymddiriedolaethau di-breswyl	FN12
Buddiannau a dderbyniwyd o ymddiriedolaethau, cwmnïau ac endidau eraill dramor	FN12
Enillion ar bolisïau yswiriant bywyd tramor, blwydd-daliadau bywyd a pholisïau adbrynu cyfalaf	FN13
Cwblhau Tudalen F3	FN14
Rhyddhad credyd treth dramor ar gyfer treth dramor a dalwyd ar gyflogaeth, hunangyflogaeth ac incwm arall	FN14
Rhyddhad credyd treth ar gyfer treth dramor a dalwyd ar enillion	FN15
Rhan 2 - cyfrifo rhyddhad credyd treth dramor	FN15
Rhyddhad yn erbyn Treth Incwm	FN15
Rhyddhad yn erbyn Treth Enillion Cyfalaf	FN16
Cwblhau'r Daflen Waith Rhyddhad Credyd Treth Dramor	FN16
Tabl cyfraddau treth ataliedig	FN24

TAFLENNI CYMORTH

Mae Taflenni Cymorth sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am rai rheolau treth ar gyfer y Tudalennau hyn ar gael o'r Llinell Archebu neu yn **www.hmrc.gov.uk**

- *IR250: Capital allowances and balancing charges in a rental business*
- *IR260: Overlap*
- *IR261: Foreign tax credit relief: capital gains*
- *IR301: Calculation of the increase in tax charge on capital gains from non-resident, dual resident and immigrating trusts*
- *IR302: Dual residents*
- *IR304: Non-residents - relief under Double Taxation Agreements*
- *IR310: War widow's and dependant's pensions*

Cwblhau eich Tudalennau Tramor

Casglwch ynghyd y deunydd sydd ei angen arnoch, fel:

- talebau difidend tramor (gellir derbyn y rhain trwy ddull electronig)
- cyfriflenni banc ar gyfer cyfrifon tramor
- hysbysiadau ar gyfer pensiynau tramor
- asesiadau treth dramor
- derbynebion ar gyfer treth dramor a dalwyd.

Mae'r nodiadau yn Rhan 1 sy'n dechrau ar y dudalen nesaf yn dweud wrthych sut i gwblhau'r Tudalennau Tramor. Cwblhewch Dudalennau F1 i F5 o'r Tudalennau Tramor i roi manylion eich incwm a'ch enillion tramor:

- Mae tudalen F1 ar gyfer cynilion tramor, (gan gynnwys incwm o gronfeydd alltraeth) sy'n drethadwy ar y gyfradd dreth gynilion (20%) neu'r gyfradd dreth ddifidend (10%) (mae'r nodiadau yn dechrau ar dudalen FN3).
- Mae tudalen F2 ar gyfer:
  - pensiynau tramor
  - budd-daliadau nawdd cymdeithasol tramor
  - incwm o dir ac eiddo tramor
  - gwarediadau o gronfeydd alltraeth tramor
  - incwm a dderbyniwyd gan ymddiriedolaethau, cwmnïau ac endidau eraill dramor
  - buddiannau a dderbyniwyd (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) o ymddiriedolaethau, cwmnïau ac endidau eraill dramor.

  Defnyddiwch hwn hefyd ar gyfer eich cynilion tramor os ydych yn drethadwy ar y sail taliad (gweler y nodyn ar dudalen FN2).
- Cwblhewch Dudalen F3 i wneud cais am ryddhad credyd treth dramor ar:
  - incwm a gynhwysir yn y Tudalennau Cyflogaeth, Hunangyflogaeth, neu Bartneriaeth, neu ym mlychau 13.1 i 13.3 ar dudalen 4 eich Ffurflen Dreth (gweler y nodiadau ar dudalen FN14)
  - enillion trethadwy a gynhwysir yn eich Tudalennau Enillion Cyfalaf (gweler y nodiadau ar dudalen FN16),
- Cwblhewch Dudalennau F4 ac F5 fel y bo'n briodol ar gyfer eiddo ar osod dramor. Crynhowch yr incwm ar Dudalen F2 (mae'r nodiadau yn dechrau ar dudalen FN6).

Mae tudalennau F1 i F5 yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i gyfrifo rhyddhad ar gyfer unrhyw dreth dramor a dalwyd ar incwm neu enillion y gellir codi treth y DU arnynt. Efallai y gallech osod y cyfan neu ran o'r dreth dramor yn erbyn eich bil treth yn y DU. Gelwir hyn yn rhyddhad credyd treth dramor.

Os ydych am gyfrifo'r rhyddhad credyd treth dramor eich hun, neu os ydych yn cyfrifo eich bil treth, cwblhewch y Daflen Waith yn Rhan 2 y Nodiadau hyn hefyd, Tudalennau FN16 i FN23.

SA106 (Nodiadau) (Cymraeg)

Rhan 1 – nodi eich incwm tramor a gwneud cais am ryddhad credyd treth

Sail codi

Oni bai fod y sail taliad (gweler isod) yn gymwys, caiff eich incwm ei drethu wrth iddo godi, p'un a yw'n cael ei ddwyn i'r DU ai peidio. Mae'n rhaid i chi nodi swm llawn yr incwm sy'n codi o ffynonellau tramor ar eich Tudalennau Tramor. Ar gyfer incwm rhentu tramor, mae hyn yn golygu eich incwm gros llai treuliau caniataol.
Ar gyfer pob incwm arall, golygir incwm gros cyn treth.

Sail taliad

Er eu bod yn preswylio yn y DU at ddibenion treth, gall unigolion nad yw eu domisil yn y DU neu nad ydynt fel arfer yn preswylio yn y DU, wneud cais i'w hincwm tramor gael ei drethu ar y sail taliad.

Gofynnwch i'r Llinell Archebu am y Tudalennau Di-breswyl os credwch fod hyn yn gymwys i chi. Os ydych yn atebol i dreth ar y sail taliad nodwch symiau'r incwm a gafwyd yn y DU yn unig (a chynhwyswch unrhyw incwm cynilion ar dudalen F2 ac nid ar dudalen F1). Dosrannwch unrhyw dreth dramor a dalwyd fel y bo'n briodol (gweler Enghraifft 1 isod).

Enghraifft 1
Derbyniodd Rachel bensiwn o £1,000 ac fe dalodd dreth dramor o £150 arno, ond dim ond hanner y swm net (£850) a ddygodd i'r DU yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006. Y cyfrifiad yw:

Pensiwn a dderbyniwyd yn y DU		£425
Adiwch dreth dramor	$\frac{£425 \times £150}{£850}$ =	£75
		£500

Nodwch ar y Tudalennau Tramor:

Swm cyn treth (Colofn B)	£500
Treth dramor (Colofn D)	£75

Nid yw'r sail taliad yn gymwys i:

- enillion o dan bolisi yswiriant bywyd, blwydd-dâl bywyd neu bolisi adbrynu cyfalaf. Mae'r enillion hyn yn drethadwy bob amser ar y sail codi
- Incwm o Weriniaeth Iwerddon o bensiynau, gwarantau, stociau, cyfranddaliadau a rhent. Swm trethadwy yr incwm hwn yw'r swm llawn sy'n codi ac nid yw'n gyfyngedig i symiau a drosglwyddwyd, hyd yn oed os nad oes gennych breswylfa neu os nad ydych fel arfer yn preswylio yn y DU.

Cyd-gynilion a chyd-fuddsoddiadau

Os oes gennych gynilion neu fuddsoddiadau a ddelir ar y cyd, dylech ond nodi eich cyfran chi o'r incwm.

Os ydych yn briod neu wedi ffurfio partneriaeth sifil, caiff incwm o gynilion neu fuddsoddiadau a ddelir ar y cyd â'ch gŵr neu'ch gwraig neu'ch partner sifil ei rannu'n gyfartal fel arfer. Os ydych yn berchen ar y cynilion neu'r buddsoddiadau a'r incwm ohonynt mewn cyfrannau anghyfartal, gallwch ddewis i'r incwm gael ei drin at ddibenion treth ar y sail honno. Ni ellir ôl-ddyddio'r dewis.

Gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth os hoffech fwy o wybodaeth neu ffurflen ddewis.

Nid yw'n bosibl dewis rhannu unrhyw 'ennill' ar bolisi yswiriant bywyd, blwydd-dâl bywyd neu ar bolisi adbrynu cyfalaf. Dyrennir unrhyw ennill i'r person sy'n berchen ar yr hawliau mewn gwirionedd (neu a oedd yn berchen arnynt yn union cyn y digwyddiad trethadwy) o dan y polisi neu'r contract yswiriant, neu a greodd yr ymddiriedolaethau y delir yr hawliau oddi tanynt.

Incwm na ellir ei drosglwyddo i'r DU

Os oes gennych incwm sy'n codi y tu allan i'r DU nad oeddech yn gallu ei drosglwyddo i'r DU, oherwydd rheolaethau cyfnewid neu brinder arian cyfred tramor yn y wlad dramor, yna gallwch wneud cais na ddylid trethu'r incwm hwnnw na ellir ei drosglwyddo yn 2005-06.

Os credwch fod hyn yn gymwys i chi, gweler tudalen FN4 i gael arweiniad ar sut i roi manylion yr incwm na ellir ei drosglwyddo ar eich Tudalennau Tramor.

Nid yw hyn yn gymwys o ran incwm/budd sy'n codi o ganlyniad i drosglwyddo asedau o'r math a ddisgrifir ar dudalen FN11 ac FN12.

Incwm yn dod yn incwm y gellir ei drosglwyddo

Pan na threthwyd incwm mewn blwyddyn gynharach am nad oedd yn incwm y gellid ei drosglwyddo, ond y gellid ei drosglwyddo i'r DU yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006, caiff ei drin fel un sy'n codi yn 2005-06. Gall incwm ddod yn incwm y gellir ei drosglwyddo os, er enghraifft, y diddymir y rheolaethau cyfnewid. Dylech gynnwys unrhyw incwm y mae hyn yn gymwys iddo p'un a gaiff ei drosglwyddo i'r DU ai peidio. Dylai swm yr incwm ac unrhyw dreth dramor a godir arno gael ei droi yn sterling gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar yr adeg y daw'r incwm yn incwm y gellir ei drosglwyddo.

Incwm tramor: newid i sterling

Dylai incwm sy'n drethadwy ar y sail codi gael ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid oedd yn bodoli ar yr adeg pan gododd yr incwm.

Dylai incwm sy'n drethadwy ar y sail taliad gael ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid oedd yn bodoli ar ddyddiad ei dderbyn yn y DU.

Dylai enillion ar bolisïau yswiriant bywyd tramor, blwydd-daliadau neu bolisïau adbrynu cyfalaf gael eu cyfrifo yn yr arian cyfred a gaiff ei enwi yn y polisi neu'r contract a dylai'r ennill gael ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gymwys ar adeg y digwyddiad trethadwy.

Os ydych yn ansicr o'r gyfradd gyfnewid i'w defnyddio, gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth, neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Treth dramor a dalwyd a rhyddhad credyd treth dramor

Fel arfer rhyddhad credyd treth dramor yw'r ffordd fwyaf buddiol o gael rhyddhad rhag trethiant dwbl, ond os nad ydych am wneud cais amdano, gallwch ddidynnu'r dreth dramor wrth gyfrifo swm yr incwm a'r enillion y gellir codi treth yn y DU arnynt yn lle hynny.

Enghraifft 2
Derbyniodd John incwm o £1,000 pan gafodd treth dramor o £150 ei hatal wrth y ffynhonnell.

Os codir treth y DU ar 22% ar yr incwm a'i fod yn gwneud cais am ryddhad credyd treth dramor, ei rwymedigaeth net fydd:

(£220 *llai* £150) = £70.

Os nad yw'n gwneud cais am ryddhad credyd treth dramor, ei rwymedigaeth fydd:

(£1,000 *llai* £150) = £850 x 22% = £187.

Nid yw rhyddhad credyd treth dramor ar gael bob tro ar gyfer y swm llawn o dreth dramor a dalwyd gennych. Mae rhyddhad yn amodol ar y rheolau canlynol:

- bydd rhyddhad ond yn ddyledus os ydych yn breswylydd yn y DU (mae rheolau arbennig yn gymwys mewn rhai amgylchiadau os ydych yn breswylydd ar Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel - gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth am gymorth)
- mae'n rhaid i'r incwm godi yn y wlad dramor a'i drethu yn y ffordd gywir o dan gyfraith y wlad dramor

- pan fydd Cytundeb Trethiant Dwbl (gweler isod) yn bodoli rhwng y DU a'r wlad arall, cyfyngir swm y dreth dramor sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad i isafswm y dreth dramor sy'n daladwy o dan delerau'r Cytundeb. Os ydych am gyfrifo eich treth, darllenwch restr Cytundebau Trethiant Dwbl y DU ar dudalennau FN24 i FN28. Mae'n dangos cyfraddau cytundeb treth ataliedig sy'n gymwys i ddifidendau, llog, breindaliadau a ffioedd technegol sy'n deillio i breswylydd yn y DU.

Treth Ataliedig yw treth a ddidynnir gan y talwr pan delir yr incwm i chi. Os ydych wedi talu treth dramor ar gyfradd uwch na'r un a ddangosir ar gyfer y math arbennig o incwm, nid yw rhyddhad credyd treth dramor ar gael ar gyfer y dreth os yw'n fwy na'r gyfradd yn y cytundeb; dylech felly fynd at yr awdurdod treth dramor i gael ad-daliad o'r dreth a dalwyd a oedd yn fwy na'r gyfradd yn y cytundeb. Mae cyfraddau treth ataliedig yn dechrau ar dudalen FN24.

- pan na fydd Cytundeb Trethiant Dwbl yn bodoli rhwng y DU a'r wlad arall, neu pan na fydd y Cytundeb yn cwmpasu'r dreth dramor arbennig honno, bydd rhyddhad ond ar gael os bydd y dreth yn cyfateb â Threth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf yn y DU. Os ydych yn ansicr ynglŷn â hyn, gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth
- **ni ddylai** swm y rhyddhad credyd treth dramor fod yn uwch na'r dreth a godir yn y DU ar yr un eitem o incwm neu enillion y cyfrifwyd y dreth dramor arno
- ni allwch wneud cais am ryddhad credyd treth dramor ar gyfer unrhyw dreth dramor a delir ar eitem arbennig o incwm neu enillion os ydych wedi gwneud cais am y cyfan neu ran o'r dreth dramor honno fel didyniad wrth bennu swm yr incwm neu'r enillion ar gyfer treth yn y DU.

Nid yw treth a ddidynnir o ddifidendau a dderbynnir o'r gwledydd a restrir isod yn gymwys ar gyfer rhyddhad credyd treth, naill ai am fod y rhyddhad wedi ei atal yn benodol gan y Cytundeb Trethiant Dwbl, neu am nad yw'r dreth yn dreth uniongyrchol ar y difidend ei hun am ei fod mewn gwirionedd yn daliad ar gyfer treth a godir ar elw ac enillion y cwmni sy'n talu'r difidend.

Y gwledydd yw Antigua; Awstralia (difidendau wedi'u ffrancio yn unig); Belize; Cyprus; Y Gambia; Guernsey; Ynys Manaw; Jersey; Kiribati; Malaysia; Malta; Singapore.

Er nad yw'r dreth ar gael ar gyfer rhyddhad credyd, gellir ei didynnu wrth gyfrifo swm y difidend y codir treth arno yn y DU (gweler Colofn E). Felly byddai difidend o 100 â threth dramor o 15 wedi ei gyfrif amdano yn golygu rhoi 85 yng ngholofn E.

■ *Cytundebau Trethiant Dwbl*

Cytundeb Trethiant Dwbl yw trefniant a wneir rhwng dwy wlad. Mae'n cynnwys cyfres o ddarpariaethau manwl a gynllunnir i ddileu neu ysgafnu trethiant incwm neu enillion mewn mwy nag un wlad. Gall sicrhau, er enghraifft, bod preswylydd yn y DU yn rhydd o dreth, neu'n atebol i gyfradd ostyngol o dreth ataliedig, yn y wlad dramor honno.

■ *Treth Ataliedig Arbennig*

Daeth Cyfarwyddeb Cynilion yr Undeb Ewropeaidd (UE) i rym ar 1 Gorffennaf 2005. O dan y Gyfarwyddeb hon bydd rhai Gwladwriaethau sy'n aelodau a rhai tiriogaethau perthynol yn gweithredu treth ataliedig ar rai taliadau penodol a delir i breswylwyr y DU.

Yr unig diriogaethau a allai weithredu'r dreth hon yw: Awstria, Gwlad Belg, Lwcsembwrg, Jersey, Guernsey, Ynys Manaw, British Virgin Islands, Antilles yr Iseldiroedd, Twrcs a Caicos, Y Swistir, Andorra, San Marino, Liechtenstein a Monaco.

Bydd y dreth hon yn ychwanegol at unrhyw dreth dramor a ddidynnir.

Caiff y dreth ei thrin fel taliad ar gyfrif ar gyfer eich rhwymedigaeth treth yn y DU a gellir ei had-dalu, petai'n uwch na'r rhwymedigaeth yn y DU.

Incwm tramor a drethir ar y sail codi

Os ydych yn drethadwy ar y sail codi yna dylid nodi'r Dreth Ataliedig Arbennig a ddidynnwyd o'ch incwm yng ngholofn D ar Dudalen F1.

Incwm tramor a drethir ar y sail talu

Os ydych wedi gwneud cais i'ch incwm tramor gael ei drethu ar y sail talu yna gallwch hawlio'r Dreth Ataliedig Arbennig sy'n gysylltiedig â'r incwm a drosglwyddwyd i'r DU yn ystod y flwyddyn hon.

Enghraifft 3

Mae Adam yn derbyn llog o £1,000 o Jersey. Tynnwyd Treth Ataliedig Arbennig (TAA) o £150 o'r llog. Nid yw domisil Adam yn y DU, felly mae'n gwneud cais i'w incwm tramor gael ei asesu ar y sail talu. Trosglwyddwyd £425 o'r llog i'r DU.

Llog a dderbyniwyd yn y DU	£425
Ychwanegwch TAA $^{425}/_{850}$ x150	£ 75
	£500
Ar dudalen F2 y Tudalennau Tramor nodwch Swm cyn treth (Colofn B)	£500
Treth Ataliedig Arbennig (Colofn D)	£ 75

Treth Enillion Cyfalaf

Efallai y canfyddwch fod y Dreth Ataliedig Arbennig wedi ei didynnu o dderbyniadau gwerthiant cyfranddaliadau neu unedau mewn rhai busnesau oherwydd bod y Gyfarwyddeb yn ystyried bod y cynnydd mewn gwerth yn rhannol o ganlyniad i 'daliadau llog'. Er bod y Gyfarwyddeb yn ystyried bod derbyniadau'r gwerthiant o fewn y diffiniad ar gyfer 'taliad llog', bydd y DU yn trin y gwaredia fel 'ennill cyfalaf'. Dylid cofnodi'r ennill ar y tudalennau Enillion Cyfalaf ar eich Ffurflen Dreth . Dylid nodi'r cais am Dreth Ataliedig Arbennig ym mlwch 6.10A ar y Tudalennau Tramor.

■ *Cwblhau Tudalennau F1 ac F2*

Rhowch fanylion am:

- difidendau tramor
- llog ac incwm arall o gynilion tramor
- pensiynau tramor
- budd-daliadau nawdd cymdeithasol tramor
- incwm o dir ac eiddo tramor
- incwm a gafwyd gan ymddiriedolaethau, cwmnïau ac endidau eraill dramor
- budd a dderbyniwyd (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) o ymddiriedolaethau, cwmnïau ac endidau eraill dramor.

Dylech gynnwys unrhyw gynilion tramor neu incwm o osod tir ac eiddo dramor y mae hawl gennych iddynt drwy ymddiriedolaeth yn y DU.

Dylech nodi gwybodaeth am unrhyw incwm neu enillion a gynhwyswyd rywle arall yn eich Ffurflen Dreth ac sydd wedi dioddef treth dramor rydych am wneud cais am ryddhad credyd amdanynt ar Dudalen F3.

Pwysig Mae'n rhaid i bob eitem o incwm neu enillion mewn unrhyw gategori penodol (er enghraifft, mwy nag un pensiwn tramor, neu ddifidendau o fwy nag un cwmni tramor) gael ei nodi ar wahân. **Ond gweler tudalen FN4 ar sut i ymdrin ag incwm na ellir ei ad-dalu.**

Mae'r enghraifft isod yn dangos i chi sut i nodi'r wybodaeth ar gyfer pob eitem:

- **yng ngholofn A**, nodwch enw'r wlad y cododd yr eitem incwm ynddi. Yn yr adran sy'n delio â llog a chynilion eraill dangoswch natur yr incwm a dderbyniwyd mewn cromfachau fel [LI] ar gyfer llog neu [A] ar gyfer incwm arall
- **yng ngholofn B**, nodwch swm yr incwm cyn didynnu unrhyw dreth ataliedig arbennig neu dreth dramor ond ar ôl didynnu incwm na ellir ei drosglwyddo

- **yng ngholofn C**, nodwch swm y dreth dramor a dalwyd ar yr incwm a nodwyd yng ngholofn B. (Os yw cyfradd y dreth dramor a daloch yn fwy na'r gyfradd yr oeddech, fel preswylydd yn y DU, yn atebol iddi o dan delerau Cytundeb Trethiant Dwbl, nodwch swm y dreth dramor ar gyfradd y Cytundeb ac ewch at yr awdurdod treth dramor am ad-daliad o'r gweddill. Mae'r Tabl sy'n dechrau ar dudalen FN24 yn nodi uchafswm y cyfraddau sy'n gymwys i rai mathau o incwm.)
- **yng ngholofn D,** nodwch swm y Dreth Ataliedig Arbennig a ddidynnwyd , os o gwbl, o'r incwm. Sylwer y gall hyn fod yn gymwys dim ond i'r incwm o'r tiriogaethau a restrir ar dudalen FN3. Os didynnwyd treth incwm y DU o'r incwm, dylid ei chynnwys yng ngholofn D. (Os didynnwyd treth incwm y DU o incwm a gynhwyswyd ar dudalen F1, nodwch hwn yng ngholofn D a rhowch fanylion amdano yn y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol', blwch 6.39 ar dudalen F5).
- **yng ngholofn E**, nodwch swm yr incwm y codir treth arnoch. Mae'r nodiadau canlynol yn esbonio sut i gyfrifo hyn.
- ticiwch y blwch yng ngholofn E os ydych am wneud cais am ryddhad credyd treth dramor am yr eitem.

● Nodi incwm na ellir ei drosglwyddo i'r DU

Ar gyfer pob eitem o incwm (ac eithrio incwm o dir ac eiddo tramor – gweler FN6) na ellir ei drosglwyddo i'r DU yn y flwyddyn dreth 2005-06:

- **yng ngholofn A**, nodwch y wlad y cododd yr eitem incwm ynddi
- ticiwch y blwch
- **yng ngholofn B**, nodwch swm yr incwm na ellir ei drosglwyddo, yn ei arian cyfred tramor (dilëwch yr arwydd £)
- **yng ngholofn D**, nodwch swm y dreth dramor a dalwyd, os o gwbl, ar yr incwm na ellir ei drosglwyddo, yn ei arian cyfred tramor (dilëwch yr arwydd £)
- gadewch y colofnau eraill yn wag.

Cynilion tramor

Cofiwch, os ydych yn drethadwy ar y sail taliad, cynhwyswch eich cynilion tramor ar Dudalen F2, nid Tudalen F1.

■ *Llog ac incwm arall o gynilion tramor*

● Cwblhau'r colofnau

colofn A Nodwch enw'r wlad lle y cododd eich incwm a lle y cafodd unrhyw dreth ataliedig ei thalu pan dalwyd y llog i chi ac ychwanegwch [Ll] ar gyfer llog neu [A] ar gyfer incwm arall fel y bo'n briodol, i ddangos a oedd yr incwm yn llog neu'n incwm arall (gweler yr enghraifft isod).

colofnau B i D Cofiwch drin pob ffynhonnell o log (gan gynnwys, er enghraifft, cyfrifon gwahanol gyda'r un banc) ar wahân a nodwch fanylion pob un ar linell ar wahân.

● Llog o ymddiriedolaethau uned tramor a chronfeydd buddsoddi eraill

Dangosir yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch i'w rhoi yn y colofnau hyn ar eich taleb ymddiriedolaeth uned neu'ch taleb cronfa. Os nad oes gennych daleb treth gofynnwch i'ch gweinyddwr ymddiriedolaeth uned neu gronfa am un. Pan gaiff y dosbarthiad llog ei ailfuddsoddi'n awtomatig yn yr ymddiriedolaeth uned neu'r gronfa, efallai y bydd yn rhaid i chi barhau i ddangos y dosbarthiad llog a'r dreth a ddidynnwyd.

● Llog o ffynonellau tramor eraill

Yn y colofnau hyn nodwch symiau'r llog a gawsoch o gyfrifon banc tramor, neu o stociau benthyg cwmni tramor, neu o fenthyciadau i unigolion neu sefydliadau eraill y tu allan i'r DU. Os yw talwr y llog wedi didynnu treth ataliedig tramor ac wedi cyfrif am y dreth honno i'r awdurdod treth dramor ar eich rhan, dangosir hyn fel arfer ar dystysgrif treth a dalwyd.

● Incwm arall o gynilion tramor

Nodwch yn y colofnau hyn unrhyw incwm arall a gawsoch o gynilion a buddsoddiadau tramor. Peidiwch â chynnwys

- enillion ar bolisïau yswiriant bywyd, blwydd-daliadau bywyd a pholisïau adbrynu cyfalaf (gweler tudalen FN13)
- pensiynau tramor (gweler tudalen FN5)
- incwm o dir ac eiddo tramor (gweler tudalen FN7).

● Incwm cronnol

Mae gwarantau incwm cronnol yn cynnwys pob gwarant sy'n dwyn llog.

Cyfrifwch godiant(tâl) neu ryddhad ar gyfer y gwarantau rydych wedi eu prynu, eu gwerthu neu eu trosglwyddo os oedd dyddiad y taliad llog nesaf ar ôl i chi eu prynu neu eu gwerthu yn disgyn rhwng 6 Ebrill 2005 a 5 Ebrill 2006.

Ni fydd codiant yn daladwy ac ni fydd rhyddhad yn ddyledus am 2005-06 os nad oedd gwerth nominal yr holl warantau incwm cronnol a ddaliwyd gennych ar unrhyw adeg yn 2005-06 neu 2004-05 yn fwy na £5,000.

Bydd codiant yn codi os gwnaethoch brynu gwarantau heb log cronnol (heb ddifidend) neu os gwnaethoch werthu gwarantau gyda'r llog cronnol (gyda difidend). Swm y codiant fydd yr addasiad ar gyfer y llog cronnol nas derbyniwyd, hynny yw, y swm y cafodd y pris prynu'r gwarantau ei ostwng (prynu heb ddifidend) neu y cafodd pris gwerthu'r gwarantau ei gynyddu (gwerthu gyda difidend).

Bydd rhyddhad yn ddyledus os prynasoch warantau gyda llog cronnol (gyda difidend) neu os gwerthoch warantau gan gadw'r hawl i dderbyn y taliad llog nesaf (heb ddifidend). Swm y rhyddhad fydd yr addasiad ar gyfer y swm ychwanegol o log a gafwyd, hynny yw, y swm y cynyddwyd y pris prynu (prynu gyda difidend) neu y cafodd y pris gwerthu ei ostwng (gwerthu heb ddifidend).

Cynilion Tramor

Cwblhewch golofnau A i E a thiciwch y blwch yng ngholofn E i wneud cais am ryddhad credyd treth.

	Gwlad ticiwch y blwch os na ellir trosglwyddo'r incwm A		Swm cyn treth B	Treth Dramor C	Treth Ataliedig Arbennig D	Swm sy'n drethadwy ticiwch y blwch i wneud cais am ryddhad credyd treth dramor E	
■ *Llog ac incwm arall o gynilion tramor* – gweler y Nodiadau ar dudalennau FN3 i FN4	UDA [A]		£ 120	£ 18	£	£ 120	√
	Yr Almaen [A]		£ 60	£ 9	£	£ 60	√
	Yr Almaen [A]		£ 500	£ 75	£	£ 500	√
	Gwlad Belg [Ll]		£ 120	£ 18	£ 18	£ 120	√

Dylech gyfuno'r codiannau a'r rhyddhad i roi'r ffigur net, ar gyfer bob math o warant. Pan fydd y codiannau yn fwy na'r rhyddhad, dylech gynnwys y cyfanswm net yng ngholofn B. Pan fydd y rhyddhad yn fwy na'r codiannau ar gyfer math o warant, dylech ddidynnu'r swm sydd dros ben o'r llog 'gros' a dderbyniwyd o'r math hynny o warant a nodwch swm gostyngol y llog yng ngholofn B.

colofn E Nodwch yng ngholofn E y swm yng ngholofn B *llai*, os nad ydych yn gwneud cais am ryddhad credyd treth, unrhyw dreth dramor a gynhwysir yng ngholofn C.

Os ydych yn gwneud cais am ryddhad credyd treth, copïwch y ffigur yng ngholofn B i golofn E, heb ddidynnu unrhyw ran o'r swm yng ngholofn C neu D, a thiciwch y blwch yng ngholofn E.

blwch 6.1 Adiwch y ffigurau yng ngholofn E a rhowch y cyfanswm ym mlwch 6.1.

Difidendau a dosbarthiadau o ffynonellau tramor

Dylech eithrio:

- dosbarthiadau a wnaed wrth ymddatod cwmni tramor
- dosbarthiadau sydd gyfystyr ag ad-dalu eich buddiant cyfalaf mewn cwmni tramor
- dosbarthiadau a wnaed gan gwmni tramor ar ffurf ei stociau a'i gyfranddaliadau ei hun
- difidendau stoc o gwmnïau tramor
- cyfranddaliadau bonws o ddyroddiad difidend stoc a wnaed gan gwmni tramor.

Fodd bynnag, os na wnaed dosbarthiad ar ffurf cyfranddaliadau ac os cawsoch arian parod gan gwmni tramor o dan opsiwn a roddwyd i chi i dderbyn arian parod yn lle cyfranddaliadau, bydd yr arian parod yn drethadwy a dylid ei nodi ar dudalen F1.

Os nad ydych yn siŵr a yw'r dosbarthiadau a gawsoch yn syrthio i un o'r categorïau uchod, gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth am gymorth.

- Cwblhau'r colofnau

colofn A Nodwch enw'r wlad lle y cododd eich incwm ynddi a lle y cafodd treth ataliedig ei thalu wrth y ffynhonnell pan dalwyd y difidend i chi.

colofnau B i D Mae pob cyfranddaliad neu uned a feddwch mewn cwmni gwahanol yn golygu ffynhonnell ar wahân at ddibenion treth. Nodwch yr incwm o bob daliad ar linell ar wahân.

- Difidendau o ymddiriedolaethau uned tramor a chronfeydd buddsoddi eraill

Dangosir yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gwblhau'r colofnau hyn ar y daleb a gewch gan eich ymddiriedolaeth uned neu gronfa. Pan gaiff incwm yr ymddiriedolaeth uned neu'r gronfa ei ailfuddsoddi'n awtomatig yn y gronfa, mae'n rhaid i chi barhau i ddangos y dosbarthiad difidend a'r dreth a ddidynnwyd. Gofynnwch i weinyddwr eich cronfa am daleb treth os nad oes gennych un.

- Difidendau o ffynonellau tramor eraill

Dangosir yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gwblhau'r colofnau hyn ar eich taleb ddifidend.

Os ydych yn breswylydd yn y DU ac yn derbyn difidendau o Ffrainc neu'r Eidal, gallech fod yn gymwys, o dan delerau'r Cytundebau Trethiant Dwbl gyda'r gwledydd hynny, i dderbyn taliad o gredyd treth y wlad arall ('avoir fiscal' yn achos Ffrainc) yn ogystal ag unrhyw ddifidend y mae hawl gennych iddo. Mae ffurflenni cais i'ch galluogi i wneud cais am y credydau treth tramor hyn ar gael o'r:

Centre for Non-Residents
Fitzroy House
PO Box 46
Nottingham NG2 1BD
Rhif ffôn **0845 070 0040**.

Mae'r Cytundebau Trethiant Dwbl gyda'r gwledydd y soniwyd amdanynt yn sicrhau bod y wlad arall yn atal treth ar gyfanswm y difidend a'r credyd treth. Felly dylech nodi swm gros y difidend yn ogystal â'r credyd treth yng ngholofn B a'r swm a ataliwyd yng ngholofn D.

Enghraifft 4

Difidend o'r Eidal	£10,000
Credyd treth yr Eidal	£ 5,625
	£15,625
Treth ataliedig yr Eidal ar 15%	£ 2,344
Net a gafwyd	£13,281

Nodwch £15,625 yng ngholofn B a £2,344 yng ngholofn C.

- Dosbarthiadau eraill o ffynonellau tramor

Os ydych wedi derbyn dosbarthiad o gwmni tramor heblaw ar ffurf difidend arian parod, er enghraifft os yw'r cwmni wedi rhyddhau rhai o'i asedion (fel cyfranddaliadau a ddeil mewn cwmni arall) i'w gyfranddalwyr, nodwch werth sterling asedion o'r fath ar ddyddiad eu dosbarthu, oni bai y caiff yr asedion eu rhyddhau wrth ymddatod neu os cynrychiolant ad-daliad cyfalaf. Gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth am gymorth os ydych yn ansicr.

colofn E Nodwch yng ngholofn E y swm yng ngholofn B *llai*, os nad ydych yn gwneud cais am ryddhad credyd treth dramor, unrhyw dreth dramor a gynhwyswyd yng ngholofn C.

Os ydych yn gwneud cais am ryddhad credyd treth dramor, copïwch y ffigur yng ngholofn B i golofn E heb ddidynnu unrhyw ran o'r swm yng ngholofn C a thiciwch y blwch yng ngholofn E.

blwch 6.2A Adiwch y ffigurau yng ngholofn E a rhowch y cyfanswm ym mlwch 6.2.

Pensiynau a budd-daliadau tramor

Pensiynau tramor

Dylech gwblhau'r colofnau hyn os, ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn dreth 2005-06, cawsoch bensiwn neu flwydd-dâl o dramor (hynny yw, y tu allan i'r DU).

Dylech hefyd gynnwys pensiynau neu flwydd-daliadau pan fydd talwr y pensiwn neu'r blwydd-dâl yn y DU ond yn ei dalu ar ran rhywun arall sydd y tu allan i'r DU.

Os ydych yn disgwyl dechrau derbyn pensiynau neu flwydd-daliadau cyn 6 Ebrill 2007, nodwch y manylion yn y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol', blwch 6.39 ar Dudalen F5 y Tudalennau Tramor. Bydd hyn yn ein helpu i gael eich cod treth yn gywir ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Ni ddylai unrhyw bensiynau eraill gael eu cynnwys yn y Tudalennau hyn. Yn hytrach dylid eu nodi yng Nghwestiwn 11 ar dudalen 4 eich Ffurflen Dreth.

colofn A Nodwch enw'r wlad lle y cododd eich incwm ynddi.

colofnau B i D Os cawsoch fwy nag un pensiwn tramor, dylech nodi manylion bob un ar linell ar wahân.

Nodiadau ar TRAMOR

Ôl-daliadau o bensiynau tramor

Os trethir eich pensiwn tramor ar y sail codi (gweler tudalen FN2) ac roedd y swm a gawsoch yn 2005-06 yn cynnwys ôl-daliadau sy'n cyfeirio at flwyddyn asesu gynharach (i 2004-05 a chynharach), gallwch wneud cais i daenu ôl-daliadau y pensiwn yn ôl i'r flwyddyn y maent yn berthnasol iddi. Os credwch y gallai hyn fod yn fanteisiol i chi, cysylltwch â ni neu'ch cynghorydd treth.

Ar gyfer pob pensiwn neu flwydd-dâl ar wahân, cwblhewch y colofnau dros y Dudalen. Nodwch yng ngholofn B swm y pensiwn neu'r blwydd-dâl **sy'n codi cyn treth**, oni bai eich bod yn atebol i dreth ar y sail taliad. Os felly, dylech nodi swm y pensiwn neu'r blwydd-dâl a gawsoch mewn gwirionedd yn y DU neu a ddygwyd i'r DU, ynghyd ag unrhyw dreth dramor a dalwyd (gweler Enghraifft 1 ar dudalen FN2).

Os telir eich pensiwn tramor drwy asiant yn y DU sydd wedi didynnu Treth Incwm y DU ohono, nodwch swm y dreth honno yng ngholofn D.

Os trethwyd eich pensiwn neu'ch blwydd-dâl yn y wlad dramor, nodwch swm priodol y dreth honno yng ngholofn C (gweler uchod).

Dylai swm llawn y dreth dramor a dalwyd gael ei nodi oni bai eich bod yn atebol i dreth ar y sail taliad (gweler tudalen FN2) ac os na ddygasoch eich pensiwn i gyd i mewn i'r DU yn y flwyddyn. Os felly, dylech nodi swm y dreth dramor sy'n cyfeirio at gyfran y pensiwn a gawsoch yn y DU.

Rhyddhad

Caiff rhai pensiynau tramor eu heithrio yn gyfan gwbl neu'n rhannol rhag treth y DU. Os ystyriwch fod eich pensiwn yn disgyn o fewn un o'r categorïau canlynol, didynnwch y rhyddhad wrth bennu'r ffigur ar gyfer colofn E:

- os ydych yn gyn weithiwr y dyfarnwyd pensiwn tramor i chi ar eich ymddeoliad am eich bod wedi eich gwneud yn anabl gan anaf ar ddyletswydd neu gan salwch sy'n gysylltiedig â gwaith, **a** bod y pensiwn hwnnw yn uwch na'r hyn a fyddai wedi cael ei ddyfarnu pe baech wedi ymddeol yr un adeg ar sail afiechyd cyffredin, yna caiff y swm ychwanegol ei eithrio rhag Treth Incwm
- nid yw pensiynau gweddwon rhyfel a rhai pensiynau a delir i ddibynyddion eraill personél ymadawedig y lluoedd arfog a'r Llynges Fasnachol yn drethadwy. Weithiau ni thelir y rhain, neu cânt eu gostwng, am eich bod yn cael pensiwn neu fudd-dâl arall fel pensiwn o dramor. Pan fydd hyn yn digwydd mae'n lleihau swm trethadwy y pensiwn neu'r budd-dâl arall a gewch. Gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR310 War widows' and dependants' pensions:* sy'n dweud wrthych sut i gyfrifo'r swm trethadwy
- caiff pensiynau a blwydd-daliadau sy'n daladwy o dan ddeddfau arbennig yr Almaen neu Awstria i ddioddefwyr erledigaeth y Natsïaid eu heithrio'n llwyr rhag Treth Incwm
- caiff pensiynau sy'n daladwy o dan rai deddfau nawdd cymdeithasol yr Almaen neu Awstria eu heithrio'n llwyr rhag Treth Incwm, os cafodd y pensiynwr ei atal gan erledigaeth, neu wrth ffoi rhag erledigaeth, rhag gwneud cyfraniadau nawdd cymdeithasol arferol, ac sydd o ganlyniad wedi cael credyd o dan ddeddfau'r Almaen ac Awstria am y cyfraniadau nas talwyd, neu a gafodd ganiatâd i brynu blynyddoedd ychwanegol o dan ddeddfau erledigaeth
- caiff pensiynau sy'n daladwy o dan rai deddfau nawdd cymdeithasol penodol yr Almaen neu Awstria, pan fydd caniatáu'r pensiwn yn ddibynnol ar ymarfer disgresiwn gan yr awdurdod sy'n caniatáu, eu heithrio'n llwyr rhag Treth Incwm.

Os, yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006, cawsoch bensiwn am y tro cyntaf, o dan unrhyw un o'r tri chategori olaf uchod, dylech gysylltu copi o'r ddogfen dyfarnu pensiwn ('Bescheid') wrth eich Ffurflen Dreth.

Os nad ydych yn siŵr a yw'r pensiwn a dderbynioch o fewn un o'r categorïau a eithrir, cysylltwch â ni neu'ch cynghorydd treth am gymorth.

Didyniad o un ran o ddeg pan fydd y sail codi yn gymwys

Mae didyniad o un ran o ddeg ar gael ar gyfer pensiynau a blwydd-daliadau tramor a ariennir gan gyflogwr neu gronfa bensiwn dramor fel mai dim ond ar 90% o bensiwn neu flwydd-dâl o'r fath y codir Treth Incwm y DU. Mae'r didyniad ar gael hefyd ar gyfer pensiynau nawdd cymdeithasol tramor. Fodd bynnag, mae'r didyniad hwn ar gael ar gyfer pensiynau a blwydd-daliadau sy'n drethadwy ar y sail codi yn unig. Os yw eich pensiwn yn drethadwy ar y sail taliad (gweler tudalen FN2), mae swm llawn y symiau gwirioneddol a gafwyd yn y DU yn drethadwy.

colofn E Nodwch yng ngholofn E y swm yng ngholofn B llai:

- unrhyw swm a eithriwyd, gan gynnwys didyniad o un ran o ddeg, os yn briodol, **ac**
- os nad ydych yn gwneud cais am ryddhad credyd treth dramor, unrhyw dreth dramor a nodwyd yng ngholofn C. Os **ydych** yn gwneud cais am ryddhad credyd treth dramor, peidiwch â didynnu unrhyw ran o'r swm yng ngholofn C o'r ffigur yng ngholofn B, cyn nodi ffigur yng ngholofn E. Ticiwch y blwch yng ngholofn E i wneud cais am ryddhad credyd treth dramor.

Budd-daliadau nawdd cymdeithasol tramor

Os, yn ystod 2005-06, cawsoch fudd-daliadau o dan ddeddfwriaeth nawdd cymdeithasol llywodraeth tramor, dylech nodi'r symiau yn y golofn briodol ar y Tudalennau Tramor. Dylech eithrio budd-daliadau a ddyfarnwyd o dan ddeddfau nawdd cymdeithasol tramor sy'n cyfateb â'r budd-daliadau nawdd cymdeithasol canlynol yn y DU:

- Budd-dâl analluogrwydd (pan gafodd y dyfarniad ei wneud am gyfnod o analluogrwydd a ddechreuodd cyn 13 Ebrill 1995)
- Budd-dâl analluogrwydd a dalwyd yn ystod chwe mis cyntaf eich analluogrwydd
- Lwfans gweini
- Lwfans byw i'r anabl
- Lwfans anabledd difrifol
- Lwfans mamolaeth
- Lwfans plant arbennig
- Lwfans gwarcheidwad
- Budd-dal plant.

Os ydych yn ansicr a gwmpesir budd-dâl nawdd cymdeithasol tramor penodol yma, gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth.

colofn A Nodwch enw'r wlad y cododd eich incwm ynddi.

colofnau B i D Cofiwch, os cawsoch fwy nag un budd-dâl tramor, dylech nodi manylion bob un ar linell ar wahân.

Nodwch symiau'r budd-daliadau trethadwy cyn didynnu unrhyw dreth y DU neu dreth dramor yng ngholofn B. Gadewch golofn D yn wag. Nodwch swm y dreth dramor yng ngholofn C.

colofn E Nodwch y swm yng ngholofn B ***llai,*** os nad ydych yn gwneud cais am ryddhad credyd treth, unrhyw dreth dramor a gynhwyswyd yng ngholofn C.

Os ydych yn gwneud cais am ryddhad credyd treth, peidiwch â didynnu unrhyw ran o'r swm yng ngholofn C o'r ffigur yng ngholofn B cyn nodi ffigur yng ngholofn E. Ticiwch y blwch yng ngholofn E i wneud cais am ryddhad credyd treth.

Incwm o dir ac eiddo dramor

Mae'r ffordd y cwblhewch dudalennau F4 ac F5 ar gyfer tir ac eiddo dramor yn dibynnu ar p'un a wnewch gais i drethu eich incwm tramor ar y sail taliad (gweler tudalen FN2).

Sail taliad

Os yw'r sail taliad yn gymwys i chi, dim ond ar incwm o eiddo ar osod dramor y cewch eich trethu i'r graddau y dewch â'ch incwm i'r DU. **Nid oes rhaid i chi gwblhau blychau 6.11 i 6.38**. Cwblhewch flychau A i E ar dudalen F2 yn ôl y cyfarwyddiadau gyferbyn.

Fodd bynnag, nid yw'r sail taliad yn gymwys i incwm o eiddo ar osod a leolir yng Ngweriniaeth Iwerddon, sydd bob amser yn drethadwy ar y sail codi (gweler tudalen FN2).

Cwblhau Tudalen F2, os yw'r sail taliad yn gymwys i chi

colofn A Nodwch enw'r wlad y lleolir yr eiddo ynddi. Os oes gennych fwy nag un eiddo ac maent mewn gwledydd gwahanol, rhowch fanylion yn y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol', blwch 6.39 ar Dudalen F5.

colofn B Nodwch yng ngholofn B swm llawn yr incwm o'r eiddo a ddygwyd gennych i'r DU.

colofn C Nodwch swm unrhyw dreth dramor a dalwyd y gellir ei briodoli i'r incwm a ddangosir yng ngholofn B. Os na ddygwch eich holl incwm rhent tramor i'r DU, dylai unrhyw dreth dramor a delir ar gyfanswm yr incwm gosod gael ei ddosrannu yn unol â hynny.

colofn D Nodwch yng ngholofn D unrhyw dreth y DU a ddidynnwyd.

Enghraifft 5
Rhenti tramor Richard yw £10,000 gyda threth dramor o £2,000 yn cael ei thalu i'r awdurdod treth dramor. Os daw Richard â £6,000 o'r incwm net ar ôl treth (£8,000) i'r DU, y dreth dramor y gellir ei phriodoli i'r swm hwnnw yw:

$$\frac{£6,000}{£8,000} \times £2,000 = £1,500$$

Dylai Richard nodi £7,500 (sef £6,000 plws £1,500) yng ngholofn B a £1,500 yng ngholofn C

colofn E Os ydych am wneud cais am ryddhad credyd treth dramor (gweler tudalen FN2) copïwch y ffigur yng ngholofn B i golofn E. Dyma'r swm y codir treth y DU arno. Ticiwch y blwch yng ngholofn E.

Os nad ydych am wneud cais am ryddhad credyd treth dramor, didynnwch y ffigur yng ngholofn C o'r un yng ngholofn B a nodwch y swm net yng ngholofn E. Peidiwch â thicio'r blwch yng ngholofn E.

Sail codi

Os na chewch eich trethu ar y sail taliad, yna mae'r sail codi yn gymwys (gweler tudalen FN2) a chewch eich trethu ar swm llawn eich incwm rhentu tramor am y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006 p'un a ydych yn ei ddwyn i'r DU ai peidio.

Cyn cwblhau colofnau A i E ar Dudalen F2, cwblhewch Dudalennau F4 ac F5. Llenwch Dudalen F4 os mai dim ond un eiddo dramor ar osod sydd gennych neu os oes gennych fwy nag un ond maent i gyd yn yr un wlad dramor, neu mae gennych fwy nag un ond ni ddidynnwyd unrhyw dreth dramor o'r incwm a gellir trosglwyddo'r holl incwm i'r DU.

Fel arall, llenwch gopi o Dudalen F4 ar gyfer pob eiddo dramor ar osod. Gwnewch gopïau o Dudalen F4 cyn dechrau ei llenwi neu gofynnwch i'r Llinell Archebu am gopïau ychwanegol o'r Tudalennau Tramor. Rhowch eich enw a'ch cyfeirnod treth gyferbyn â blwch cyfeiriad yr eiddo ar bob copi o Dudalen F4 a lenwir gennych.

Cwblhau Tudalen F4

Yn gyntaf, nodwch gyfeiriad llawn yr eiddo, neu os defnyddir Tudalen F4 ar gyfer mwy nag un eiddo ar osod, cyfeiriad yr eiddo cyntaf. Defnyddiwch y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol' Blwch 6.39 ar dudalen F5 ar gyfer cyfeiriadau pob eiddo arall.

Incwm

blwch 6.11 Os ydych yn llunio unrhyw drafodion sy'n cynhyrchu rhenti neu dderbyniadau eraill o unrhyw hawliau neu fuddiannau a ddelir gennych mewn tir neu eiddo a leolir dramor, mae'r rhenti a'r derbyniadau hynny yn drethadwy.

Nodwch ym mlwch 6.11 swm llawn y derbyniadau o'r eiddo dan sylw, ond dylech eithrio **unrhyw bremiymau trethadwy**. Mae'r rhain yn mynd yn syth ar Dudalen F2. Gweler y nodiadau isod.

Mae incwm yn cynnwys derbyniadau mewn arian neu mewn nwyddau. Caiff ei drethu pan gaiff ei ennill, hyd yn oed os na chewch yr arian neu'r nwyddau tan yn ddiweddarach.

Dylech gynnwys unrhyw rent a gewch (neu y byddwch yn ei dderbyn) ar ôl 5 Ebrill 2006, sy'n daliad am y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006 (am ei fod yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau). Dylech **eithrio** unrhyw rent a dderbynioch sy'n cyfeirio at unrhyw gyfnod ar ôl 5 Ebrill 2006 (am ei fod yn cael ei dalu ymlaen llaw). Er enghraifft, os yw'n ofynnol i'ch tenant dalu rhent ymlaen llaw, dylai'r gyfran a delir sy'n cyfeirio at y cyfnod gael ei heithrio. Mae'n rhaid ei chynnwys yn eich incwm am y flwyddyn y mae'n cyfeirio ati.

Gwnewch yn siŵr nad ydych yn cyfrif arian a gawsoch yn y flwyddyn hon os cafodd ei gynnwys mewn blwyddyn gynharach.

Yn fras, bydd y rhan fwyaf o incwm yn incwm rhent o denantiaeth, prydles, neu gytundebau trwyddedu dros eich tir neu eiddo. Dylid cynnwys incwm rhent o lety wedi'i ddodrefnu, heb ei ddodrefnu, masnachol a domestig, ac o unrhyw dir, yn y cyfanswm cyffredinol. Os caiff eich eiddo ei osod wedi'i ddodrefnu, bydd unrhyw symiau a delir gan y tenant am ddefnyddio dodrefn yn drethadwy fel incwm eich busnes. Dylai'r holl incwm hwn gael ei adio at ei gilydd a'i nodi ym mlwch 6.11.

Mae derbyniadau heblaw rhenti yn drethadwy hefyd. Mae enghreifftiau yn cynnwys taliadau rhent a rhenti daear, incwm yn deillio o ganiatáu hawliau helwriaeth, ac incwm o arllwys sbwriel. Os ydych yn ansicr a ddylai swm penodol gael ei gynnwys fel incwm, cysylltwch â ni neu'ch cynghorydd treth.

Premiymau trethadwy

Mae premiymau a delir ar gyfer caniatáu prydles a rhai cyfandaliadau penodol eraill a ffurfiau eraill o gydnabyddiaeth a roddir mewn cysylltiad â'r hawl i feddiannu eiddo dramor yn drethadwy hefyd, ond ar sail arbennig.

Yn gryno, ar gyfer prydlesi dros 50 mlynedd caiff y premiwm cyfan ei drin fel derbyniad cyfalaf ac felly nid yw'n ffurfio rhan o'ch incwm trethadwy. Ar gyfer prydlesi o lai na 50 mlynedd, caiff y premiwm ei drin yn rhannol fel cyfalaf ac yn rhannol fel rhent a dim ond y rhent gaiff ei drethu.

Defnyddiwch y Daflen Waith isod i gyfrifo'r swm trethadwy.

Taflen Waith: premiymau trethadwy - prydlesi hyd at 50 mlynedd

Premiwm	**A**	£
Nifer y cyfnodau cyflawn o 12 mis yn y brydles *(anwybyddwch ddeuddeg mis cyntaf y brydles)*	**B**	
50 *llai* blwch B	**C**	£
blwch C *wedi ei rannu* â 50	**D**	£
blwch A *wedi'i luosi* â blwch D	**E**	£

Copïwch y ffigur ym mlwch E i res 'Premiymau trethadwy' yng ngholofn B ar dudalen F2.

Os ydych wedi talu treth dramor ar y premiwm, dosrannwch y dreth dramor fel y bo'n briodol a nodwch y swm y gellir ei briodoli i'r rhan honno o'r premiwm sy'n drethadwy yn y DU (blwch E) yng ngholofn C.

Os ydych am wneud cais am ryddhad drwy gyfrwng credyd ar gyfer treth dramor a dalwyd, copïwch y ffigur yng ngholofn B i golofn E a thiciwch y blwch yng ngholofn E.

Os nad ydych am wneud cais am ryddhad credyd treth, didynnwch y ffigur yng ngholofn C o'r un yng ngholofn B a nodwch y gwahaniaeth yng ngholofn E. Peidiwch â thicio'r blwch yng ngholofn E.

Os ydych yn ansicr a yw'r taliad a gawsoch yn gyfystyr â phremiwm, gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth.

Premiymau gwrthdro

Os ydych yn derbyn taliad neu fudd-dâl fel cymhelliad i fuddsoddi mewn unrhyw eiddo, ar wahân i'ch prif breswylfa er mwyn ei osod, bydd y tâl a gewch yn drethadwy fel incwm o eiddo. Rhowch y swm ym mlwch 6.11. Os derbyniwch gymhelliad mewn cysylltiad ag eiddo lle y byddwch yn masnachu, darllenwch y nodyn ar gyfer blwch 3.91 ar dudalen SEN10 y Nodiadau Hunangyflogaeth.

Os ydych yn ansicr ynglŷn â sut i drin premiwm gwrthdro at ddibenion treth, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth.

blwch 6.11A Ticiwch flwch 6.11A os yw blwch 6.11 yn cynnwys incwm o fwy nag un eiddo dramor ar osod.

blwch 6.11B Ticiwch flwch 6.11B os ydyw 6.11 yn cynnwys incwm na ellir ei drosglwyddo i'r DU. Llenwch Dudalen F4 ar wahân ar gyfer pob eiddo sy'n cynhyrchu incwm na ellir ei drosglwyddo i'r DU. Peidiwch â chynnwys y ffigur ym mlwch 6.26 neu flwch 6.27 yng ngholofn 'Elw neu golled trethadwy' ar dudalen F5.

Treuliau

Os yw cyfanswm eich incwm trwy osod eiddo yn y flwyddyn, cyn treuliau, yn llai na £15,000 y flwyddyn, nid oes rhaid i chi restru treuliau ar wahân. Yn hytrach rhowch gyfanswm y treuliau ym mlwch 6.17.

Mae'r canllawiau canlynol yn rhoi syniad i chi o'r prif fathau o dreuliau sy'n debygol o godi mewn busnes rhentu a beth y gellir neu na ellir fel arfer ei hawlio fel didyniad.

Treuliau caniataol:

- yn gyffredinol, unrhyw gostau a dalwyd gennych at yr unig ddiben o ennill elw busnes
- efallai y gallech wneud cais am lwfansau cyfalaf neu ddidyniad adnewyddu ar gost prynu ased cyfalaf, neu lwfans traul ar gyfer gosodiadau wedi'u dodrefnu.

Treuliau anghaniataol:

- treuliau personol (gweler y nodiadau am flwch 6.20 ar Dudalen FN9)
- costau cyfalaf, fel treuliau sy'n ymwneud â phrynu tir neu eiddo y bwriadwch eu gosod, ar gyfer cost prynu peiriannau neu ddodrefn
- unrhyw golled a wnewch drwy werthu eiddo.

Rhaid dyrannu'r treuliau i'r cyfnod Datgan cywir ac efallai y bydd angen dosrannu rhai treuliau arbennig er mwyn pennu'r swm cywir.

- Rhent, trethi, yswiriant, ac ati

blwch 6.12 Os ydych yn dal budd prydlesol mewn eiddo rydych yn ei osod i rywun arall, gall unrhyw rent a dalwch o dan y brydles gael ei ddidynnu wrth gyfrifo eich incwm trethadwy. Mae treuliau tebyg eraill sy'n gysylltiedig â'r eiddo, fel trethi lleol neu rhenti daear yn ganiataol hefyd.

Cofiwch gynnwys yn y ffigur ym mlwch 6.12 unrhyw dreuliau y mae'n ofynnol i chi eu talu fel landlord i yswirio'r eiddo ar osod a'i gynnwys. Mae yswiriant yn erbyn colli rhenti yn gost ganiataol hefyd ond mae'n rhaid i chi gynnwys unrhyw incwm a gewch o ganlyniad i drefnu yswiriant o'r fath ym mlwch 6.11. Nid yw cost yswiriannau nad ydynt yn gysylltiedig â'r busnes gosod, fel polisïau personol neu'r rheini sy'n yswirio eich eiddo preifat, fodd bynnag, yn dreuliau caniataol.

- Atgyweiriadau, gwaith cynnal a chadw ac adnewyddiadau

blwch 6.13

Atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw

Gall treuliau sy'n atal yr eiddo rhag dirywio gael eu didynnu fel atgyweiriadau. Mae enghreifftiau o atgyweiriadau caniataol y n cynnwys peintio adeiladau tu allan a thu mewn, glanhau cerrig, trin tamprwydd, atgyweirio to, atgyweirio dodrefn ac atgyweiriadau i lifftiau a pheiriannau eraill sy'n ffurfio rhan o'r eiddo.

Pan na fydd angen gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio eiddo oherwydd gwelliannau, ychwanegiadau neu newidiadau, gellir gwneud cais am ran o'r gwariant sy'n cyfateb â chost amcangyfrif o'r gwaith cynnal a chadw a'r atgyweiriadau fel traul. Fodd bynnag, ni ellir hawlio unrhyw draul:

- pan fydd y newidiadau, ac ati mor helaeth fel eu bod yn gyfystyr ag ailgodi'r eiddo, **neu**
- pan fydd newid yn y ffordd y caiff yr eiddo ei ddefnyddio a fyddai wedi golygu nad oedd angen gwneud y gwaith cynnal a chadw neu'r atgyweiriadau.

Adnewyddiadau

Gellir caniatáu didyniad ar gyfer cost adnewyddu dodrefn a pheiriannau a gyflenwir gyda'ch eiddo pan na wneir cais am lwfansau cyfalaf (gweler y nodiadau ar gyfer blwch 6.24 ar dudalen FN9). Mae yn cwmpasu adnewyddu eitemau bach fel cyllyll a ffyrc hefyd. Os dewiswch ddidyniad adnewyddu, gallwch ddidynnu cost adnewyddu unrhyw offer o'r fath, ond nid cost y pryniant gwreiddiol. Dylech ddidynnu o'r gost adnewyddu unrhyw swm a gawsoch ar gyfer yr eitem rydych wedi ei sgrapio neu ei gwerthu. Dylech ddidynnu unrhyw ran o'r gost adnewyddu sy'n cynrychioli gwelliant neu ychwanegiad at yr eitem wreiddiol hefyd.

Nodwch ym mlwch 6.13 gyfanswm unrhyw dreuliau o'r fath am atgyweiriadau, gwaith cynnal a chadw ac adnewyddiadau a dalwyd gennych ym 2005-06 ar gyfer yr eiddo dan sylw. Os ydych yn ansicr a yw'r gwaith a wnaed ar yr eiddo yn gyfystyr ag atgyweiriad, neu ba swm y dylech wneud cais amdano fel adnewyddiad, gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth.

- Taliadau ariannol yn cynnwys llog

blwch 6.14 Nodwch ym mlwch 6.14 unrhyw dreuliau a dalwyd gennych wrth gael benthyciad neu drefniant ariannu amgen i brynu'r eiddo rydych yn ei osod, ynghyd ag unrhyw log neu daliadau ariannu amgen sy'n daladwy ar fenthyciad o'r fath ar gyfer 2005-06. Tâl ariannu amgen yw'r tâl a godir gan ddarparwr eich arian uwch ben cost wreiddiol yr ased yn y trefniant ariannu amgen.

Os nad oedd yr eiddo i gyd ar osod, neu os nad oedd yr eiddo ar gael i'w osod am y flwyddyn gyfan (oherwydd, er enghraifft, eich bod yn ei feddiannu eich hun am ran o'r flwyddyn), dosrannwch y llog neu'r taliadau ariannu amgen sy'n daladwy. Dim ond y swm y gellir ei briodoli i osod yr eiddo y dylid ei nodi ym mlwch 6.14.

Mewn amgylchiadau penodol bydd y didyniad ar gyfer llog a delir ar fenthyciad neu daliadau ariannu amgen yn cael eu cyfyngu i'r swm 'hyd braich'. Os oedd y benthyciad neu'r trefniant ariannu amgen yn dod yn uniongyrchol o, neu'n cael ei warantu ac ati, gan barti perthynol dylech gysylltu â ni neu'ch cynghorydd.

- Costau cyfreithiol a phroffesiynol

blwch 6.15 Isod ceir rhai enghreifftiau o dreuliau na allwch eu didynnu a rhai y gallwch.

Treuliau anghaniataol:

- treuliau mewn cysylltiad â gosod eiddo am y tro cyntaf neu isosod eiddo **am fwy nag un flwyddyn**. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, treuliau cyfreithiol (fel cost llunio prydles), ffioedd a chomisiwn asiantau a syrfëwyr

- unrhyw gyfran o'r costau cyfreithiol, ac ati sy'n cyfeirio at daliad premiwm wrth adnewyddu prydles
- ffioedd a dalwyd wrth gael caniatâd cynllunio neu wrth gofrestru teitl tra'n prynu eiddo.

Treuliau caniataol:

- treuliau ar gyfer gosod am flwyddyn neu lai
- y ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol arferol a dalwch wrth adnewyddu prydles, os yw'r brydles am lai na 50 mlynedd
- ffioedd proffesiynol wrth lunio cyfrifon
- ffioedd proffesiynol a dalwyd gennych wrth ddadfeddiannu tenant anfoddhaol, gyda'r bwriad o ailosod, neu'r rheini sy'n apelio yn erbyn gorchymyn prynu gorfodol.

Os ydych yn ansicr a yw unrhyw ffi gyfreithiol neu broffesiynol yn ganiataol fel didyniad gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth.

- Cost y gwasanaethau a ddarperir

blwch 6.16 Os ydych, yn ogystal â gosod yr eiddo, yn darparu gwasanaethau i'ch tenant, fel garddio, cludiant, neu lanhau, gallwch wneud cais am gost y gwasanaethau hyn i'r graddau y cânt eu darparu yn gyfan gwbl at ddibenion gosod yn unig. Nodwch ym mlwch 6.16 gost gwasanaethau a ddarperir mewn cysylltiad â gosod yr eiddo dan sylw. Os yw'r tenant yn gwneud taliad ar wahân ar gyfer y gwasanaethau sy'n uwch na'r rhent arferol, sicrhewch fod y taliadau yn cael eu cynnwys fel incwm ym mlwch 6.11.

- Treuliau eraill

blwch 6.17 Nodwch ym mlwch 6.17 yr holl wariant a dalwyd gennych yn gyfan gwbl at ddibenion gosod yn unig nas cynhwyswyd ym mlychau 6.12 i 6.16. Mae enghreifftiau yn cynnwys cost casglu rhent, hysbysebu am denantiaid, papur ysgrifennu, galwadau ffôn a gwariant amrywiol arall.

Cofiwch nad yw gwariant personol yn ganiataol. Os ydych yn gwario arian ar rywbeth sydd ond yn cael ei ddefnyddio'n rhannol at ddibenion y gosod, mae'n rhaid i chi eithrio'r swm na phriodolir i'r gosod neu nodi'r swm cyfan ym mlwch 6.17 a nodi ym mlwch 6.20 gyfran y gost sy'n cynrychioli eich defnydd preifat.

Addasiadau treth

- Cyfrannau defnydd preifat

blwch 6.20 Nid yw gwariant personol a phreifat yn ganiataol fel didyniad. Os gwariwch arian ar rywbeth sydd ond yn cael ei ddefnyddio'n rhannol ar gyfer eich busnes eiddo ac yn rhannol am reswm nad yw'n ymwneud â busnes, mae'n rhaid i chi **naill ai:**

- nodi'r swm a wariwyd at ddibenion y gosod ym mlychau 6.12 i 6.17, **neu**
- nodi swm llawn y treuliau yn y blychau hynny a didynnu ym mlwch 6.20 gyfran y gost sy'n cynrychioli'r elfen breifat neu'r elfen nad yw'n gysylltiedig â gosod.

Er enghraifft, os cafodd yr eiddo ei osod am wyth mis o'r flwyddyn yn unig ac os cafodd ei ddefnyddio gennych chi (neu gan ffrindiau neu berthnasau a gafodd ganiatâd i'w ddefnyddio) am weddill y flwyddyn, os nodwch y gost flynyddol lawn o yswirio'r eiddo ym mlwch 6.12, dylech adio traean o'r swm hwnnw ym mlwch 6.20 yn ôl.

Os oes unrhyw amheuaeth gennych a oes angen dosrannu traul arbennig rhwng defnydd busnes a phreifat, gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth.

- Lwfansau cyfalaf a thaliadau mantoli

blychau 6.21 a 6.23 Nid yw cost prynu, newid, adeiladu, gosod neu wella asedion sefydlog, neu ddibrisiant neu golledion, sy'n codi pan werthwch hwy neu fel arall yn eu gwaredu, yn ddidyniadau caniataol wrth gyfrifo incwm rhent.

Yn hytrach, gallwch weithiau wneud cais am lwfansau cyfalaf ym mlwch 6.23. Mae'r rhain yn gostwng elw neu'n cynyddu colled. Gall addasiad, a elwir yn 'dâl mantoli', godi pan fyddwch yn gwerthu eitem, yn ei rhoi am ddim neu'n syml yn rhoi'r gorau i'w defnyddio yn eich busnes gosod. Nodwch swm tâl mantoli ym mlwch 6.21. Bydd hyn yn cynyddu eich elw neu'n lleihau eich colledion.

Fodd bynnag, os yw'r eiddo sydd ar osod gennych yn dŷ annedd (gan gynnwys fflat) ar osod wedi'i ddodrefnu, **ni fydd** lwfansau cyfalaf ar gael ar unrhyw beiriant neu beirianwaith, neu ddodrefn neu ffitiadau a gyflenwir.

Bydd eich cynghorydd treth, os oes gennych un, yn gallu dweud wrthych sut i gyfrifo lwfansau cyfalaf a thaliadau mantoli. Os nad oes gennych gynghorydd treth gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR250: Capital allowances and balancing charges in a rental business.*

blwch 6.23A Ticiwch flwch 6.23A os yw blwch 6.23 yn cynnwys lwfansau cyfalaf uwch ar gyfer gwariant sy'n rhoi ystyriaeth i'r amgylchedd. Cewch fwy o wybodaeth ynglŷn â'r math hwn o wariant yn y nodiadau ar gyfer blwch 13.1A ar dudalen 19 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth neu yn *Nhaflen Gymorth IR250: Capital allowances and balancing charges in a rental business.*

- Lwfans arbed ynni ar gyfer landlordiaid

blwch 6.23B Nodwch y swm a hawliwch am osod defnydd ynysu yn y llofft ac mewn waliau ceudod mewn eiddo preswyl tramor sydd ar osod gennych ym mlwch 6.23B.Yr uchafswm y gallwch hawlio o gyfanswm y gwariant ar y ddwy eitem hon yw £1,500 ar gyfer pob adeilad sy'n cynnwys eiddo preswyl.

Os ydych wedi gosod defnydd ynysu yn y llofft neu mewn waliau ceudod neu waliau solet mewn adeilad unigol lle mae rhannau ohono'n unig yn cynnwys mannau preswyl, dylech hawlio'r rhan honno o'r gwariant (neu £1,500 os ydy cyfanswm y gwariant yn uwch na'r swm hwnnw) mewn perthynas â'r eiddo preswyl ar osod yn yr adeilad.

Os ydych yn berchen ar yr adeilad ar y cyd gyda phobl eraill (neu mae gennych chi a phobl eraill fuddiannau neu hawliau gwahanol yn yr un adeilad), dylech hawlio eich cyfran chi yn unig o'r gwariant a dalwyd mewn perthynas â'r eiddo preswyl ar osod yn yr adeilad (neu ar gyfer eich cyfran chi o ran yr uchafswm o £1,500 mewn perthynas â'r eiddo preswyl ar osod yn yr adeilad.)

Ymestynnir y rhyddhad i ynysu waliau solet ar gyfer gwariant a dalwyd ar neu ar ôl 7 Ebrill 2005.

- Traul o 10%

blwch 6.24 Os ydych yn gosod llety preswyl (gan gynnwys fflat) fel llety wedi'i ddodrefnu, nid oes lwfansau cyfalaf ar gael. Yn hytrach, gallwch wneud cais am ddidyniad am **naill ai:**

- cost net adnewyddu eitem arbennig o ddodrefn, ond nid cost y pryniant gwreiddiol (gweler y nodiadau ar dudalen FN8 ynglŷn ag 'Adnewyddiadau'), **neu**
- lwfans sy'n 10% o'r rhent a dderbyniwyd *llai* taliadau neu wasanaethau a fyddai'n cael eu talu gan denant ond sydd, mewn gwirionedd, yn cael eu talu gennych chi (er enghraifft, trethi lleol a threthi dŵr). Derbynnir bod y lwfans hwn, a elwir yn lwfans traul, yn cwmpasu'n fras cost adnewyddu dodrefn arferol.

Gellir gwneud cais am lwfansau cyfalaf os ydych yn gosod llety wedi'i ddodrefnu heblaw am lety preswyl. Os gellir gwneud cais am lwfansau cyfalaf, ni allwch wneud cais am y lwfans traul o 10%.

blychau 6.26 a 6.27

Nodwch unrhyw elw net ym mlwch 6.26. Os oedd colled, rhowch '0' ym mlwch 6.26 a swm y golled ym mlwch 6.27. Ewch ymlaen i Dudalen F5.

Cwblhau Tudalen F5

Os gwnaethoch gwblhau un Dudalen F4 llenwch flychau 6.28 i 6.32. Os gwnaethoch gwblhau mwy nag un Dudalen F4 rhowch fanylion am bob eiddo ar osod, gan ddefnyddio llinell ar wahân o'r grid ar gyfer pob un, ac yna llenwch flychau 6.33 i 6.38.

- Elw trethadwy am y flwyddyn

blychau 6.28 a 6.29 Os gwnaethoch gwblhau un Dudalen F4 yn unig ac mae mwy nag un eiddo ar osod yna mae'n rhaid i elw a cholledion pob eiddo a osodir ar rent gael eu cronni er mwyn cyfrifo'r canlyniad cyffredinol. Gallai unrhyw golledion o eiddo dramor ar osod nas rhyddhawyd ar 5 Ebrill 2005 gael eu didynnu o, neu eu hychwanegu at, yr elw neu'r golled gyffredinol, fel ei gilydd.

blwch 6.30 Os yw blwch 6.28 yn elw tynnwch unrhyw golledion a ddygwyd ymlaen ym mlwch 6.29 gan nodi'r canlyniad ym mlwch 6.30. Copïwch flwch 6.30 i golofn B ar Dudalen F2.

- Colledion wedi eu gwrthosod yn erbyn cyfanswm yr incwm

blwch 6.30A Gallwch wneud cais i wrthbwyso'r golled o'ch busnes rhentu yn erbyn cyfanswm eich incwm os yw'n codi drwy geisiadau penodol am lwfansau cyfalaf. Cyfyngir y rhyddhad i'r isaf o'r tri ffigur canlynol:

- swm y lwfansau cyfalaf ym mlwch 6.23 ar ôl didynnu unrhyw dâl mantoli ym mlwch 6.21, **neu**
- swm y golled ym mlwch 6.27, **neu**
- swm eich incwm arall.

Os nad yw'r lwfansau cyfalaf yn fwy na'r tâl mantoli ni fydd rhyddhad ochr ar gael.

- Colledion i'w cario ymlaen

blwch 6.31 Dyma gyfanswm y golled am eleni ym mlwch 6.27 plws unrhyw golledion a ddygwyd ymlaen ym mlwch 6.29 llai unrhyw golled a osodir yn erbyn cyfanswm yr incwm, blwch 6.30A. Gwnewch nodyn o'r swm. Bydd angen y ffigur hwn arnoch wrth gwblhau Ffurflen Dreth y flwyddyn nesaf.

- Treth dramor a dalwyd ar yr incwm rhentu

blwch 6.32 Os ydych wedi talu treth dramor rhowch swm y dreth dramor a dalwyd ym mlwch 6.32. Copïwch flwch 6.32 i golofn C ar Dudalen F2 a llenwch golofnau A ac E fel y bo'n briodol.

Cwblhau'r colofnau ar dudalen F2

colofn A Nodwch enw'r wlad y lleolir yr eiddo ynddi.

colofn B Nodwch swm yr elw am y flwyddyn o flwch 6.30.

colofn C Nodwch swm unrhyw dreth dramor a dalwyd mewn cysylltiad ag incwm y codir treth y DU arno ym mlwch 6.32.

colofn D Nodwch unrhyw dreth y DU a ddidynnwyd.

colofn E Os nad ydych yn hawlio rhyddhad credyd treth dramor, nodwch y swm yng ngholofn B *llai* unrhyw dreth dramor yng ngholofn C. Os **ydych** yn hawlio rhyddhad credyd treth dramor, copïwch y ffigur yng ngholofn B i golofn E. Ticiwch y blwch yng ngholofn E i wneud cais am ryddhad credyd treth dramor.

- Elw trethadwy am y flwyddyn os gwnaethoch lenwi mwy nag un Dudalen F4

blwch 6.33 i 6.35 Mae'n rhaid cronni elw a cholledion pob eiddo ar osod er mwyn cyfrifo'r canlyniad cyffredinol. Dylech eithrio unrhyw incwm na ellir ei drosglwyddo i'r DU o'r gronfa hon. Gellir didynnu unrhyw golledion o eiddo ar osod dramor nas cafwyd rhyddhad amdanynt hyd at 5 Ebrill 2005 o'r elw neu eu hychwanegu at y golled gyffredinol, fel ei gilydd.

Fel arfer, bydd awdurdodau treth y wlad lle y lleolir yr eiddo ar osod yn codi treth ar yr elw o'r gosodiadau hefyd. Pe na bai unrhyw ryddhad pellach yn cael ei roi byddai hyn yn golygu y byddech yn talu treth ar yr un elw yma a thramor. Ond caiff y codiad dwbl ei ostwng drwy ddidynnu'r dreth dramor a dalwyd ar yr incwm o'r eiddo ar osod, o'r dreth sy'n daladwy ar yr un incwm yn y DU. Gwneir hyn naill ai o dan delerau Cytundeb Trethiant Dwbl â'r wlad dramor neu, pan na fydd cytundeb yn bodoli, o dan reolau ar wahân y DU.

Os bydd treth dramor wedi ei thynnu o'r incwm tramor a gwneir cais am ryddhad credyd treth dramor, bydd angen nodi swm treth y DU y gellir ei briodoli i incwm o bob eiddo penodol. Felly, pan wneir cais am ryddhad credyd treth dramor, bydd angen cyfrifo'r elw a'r golled ar gyfer pob eiddo ar wahân. Gweler Enghraifft 6 isod.

At ddibenion cyfrifo rhyddhad credyd treth dramor, dylid didynnu colledion yn y drefn fwyaf ffafriol i'ch cais. Fel arfer, bydd hyn yn golygu y dylid dyrannu colledion yn erbyn y ffynhonnell sydd wedi dioddef y gyfradd isaf o dreth dramor yn gyntaf.

Enghraifft 6

	Gwlad A	Gwlad B	Gwlad C	Cyfanswm
Incwm	£6,000	£4,000	£6,000	
Treuliau	£1,000	£6,000	£4,000	
Elw (colled)	£5,000	(£2,000)	£2,000	£5,000

Talwyd y symiau canlynol o dreth dramor

		Cyfradd y dreth dramor	Treth a ddidynnwyd
Gwlad A	£5,000	10%	£500
Gwlad B	Dim		
Gwlad C	£2,000	30%	£600
Cyfanswm y dreth dramor			1,100

A chymryd bod yr incwm i gyd yn hollol drethadwy ar 22% bydd y Dreth Incwm sy'n ddyledus fel a ganlyn:

Gwlad A

£5,000 @ 22% = £1,100

Dyrannwch yr holl golledion a gododd yng Ngwlad B i Wlad A gan mai honno sydd wedi bod yn atebol i'r gyfradd dreth dramor isaf:

Elw	£5,000
Colledion	£2,000
Net	£3,000 @ 22% = £660

Bydd yr holl dreth dramor a dalwyd sef £500 ar gael ar gyfer rhyddhad credyd treth dramor.

Gwlad C

£2,000 @ 22% = £440

Er bod treth dramor o £600 wedi'i thalu, mae'r swm sydd ar gael ar gyfer rhyddhad credyd treth yn gyfyngedig i swm treth y DU a godwyd ar yr un incwm, sef £440.

Crynodeb

Treth Incwm sy'n ddyledus	£660 + £440	= £1,100
Rhyddhad credyd treth dramor	£500 + £440	= £940
Treth net y DU sy'n daladwy		= £160

Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch wrth gyfrifo'r rhyddhad sy'n ddyledus, cysylltwch â ni.

Os talwch drethi ar y gyfradd uwch (40%) ailgyfrifwch yr enghraifft er mwyn sicrhau eich bod yn gwneud cais am y colledion yn y modd mwyaf ffafriol.

Os yw blwch 6.33 yn elw tynnwch unrhyw golledion a ddygwyd ymlaen ym mlwch 6.34 gan nodi'r canlyniad ym mlwch 6.35. Copïwch flwch 6.35 i golofn B ar Dudalen F2.

- Treth dramor a dalwyd ar incwm rhentu

blwch 6.36 Adiwch y dreth dramor a ddidynnwyd gan roi'r cyfanswm ym mlwch 6.36.

blwch 6.37 Ar ôl dyrannu unrhyw golledion yn y modd mwyaf ffafriol adiwch y symiau sy'n drethadwy gan roi'r cyfanswm ym mlwch 6.37.

blwch 6.37A Gallwch wneud cais i wrthbwyso'r golled o'ch busnes rhentu yn erbyn cyfanswm eich incwm os yw'n codi drwy geisiadau penodol am lwfansau cyfalaf. Cyfyngir y rhyddhad i'r isaf o'r tri ffigur canlynol:

- swm y lwfansau cyfalaf ym mlwch 6.23 ar ôl didynnu unrhyw dâl mantoli ym mlwch 6.21, **neu**
- swm y golled ym mlwch 6.27, **neu**
- swm eich incwm arall.

Os nad yw'r lwfansau cyfalaf yn fwy na'r tâl mantoli ni fydd rhyddhad ochr ar gael.

blwch 6.38 Os yw'r canlyniad cyffredinol yn golled, rhowch y golled ym mlwch 6.38. Cadwch nodyn o'r swm oherwydd y bydd ei angen arnoch ar gyfer Ffurflen Dreth y flwyddyn nesaf.

- Llenwi'r colofnau ar dudalen F2

colofn A Rhowch 'gweler Tudalen F5'.

colofn B Rhowch gyfanswm yr elw ar gyfer y flwyddyn o flwch 6.35.

colofn C Rhowch swm y dreth dramor a dalwyd ar incwm sy'n agored i dreth y DU o flwch 6.36.

colofn D Rhowch dreth y DU a ddidynnwyd.

colofn E Os nad ydych yn hawlio rhyddhad credyd treth dramor, nodwch y swm yng ngholofn B *llai* unrhyw dreth dramor yng ngholofn C. Os **ydych** yn hawlio rhyddhad credyd treth dramor, copïwch flwch 6.37 i golofn E a thiciwch y blwch i wneud cais am y rhyddhad.

Incwm a dderbyniwyd gan ymddiriedolaethau, cwmnïau ac endidau eraill dramor

Os ydych wedi trosglwyddo, neu wedi cymryd unrhyw ran mewn trosglwyddo asedion (p'un a ydynt yn asedau diriaethol, gan gynnwys arian parod, neu asedau anniriaethol, gan gynnwys er enghraifft, hawliau i'ch gwasanaethau, ac ati) ac o ganlyniad daeth incwm yn daladwy i ymddiriedolaeth, cwmni neu endid arall a leolir dramor, **ac**

- rydych fel arfer yn preswylio yn y DU a gallwch chi neu eich gŵr neu'ch gwraig neu'ch partner sifil ar unrhyw adeg fwynhau unrhyw ran o'r incwm hwnnw (ym mha ffurf bynnag gan gynnwys er enghraifft, fel cyfranddaliwr mewn cwmni neu fel buddiolwr ymddiriedolaeth), **neu**
- rydych chi neu eich gŵr neu'ch gwraig neu'ch partner sifil wedi cael, neu â hawl i gael, swm cyfalaf (gan gynnwys er enghraifft, benthyciad) sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r trosglwyddiad,

yna, (oni bai eich bod yn ticio blwch 6.5A - gweler y nodyn ar dudalen FN13), nodwch incwm o'r fath yng ngholofnau A i E ar dudalen F2 a'i gynnwys yn y cyfansymiau ym mlychau 6.3, 6.3A, 6.4 a 6.4A fel a ganlyn:

- dylai cofnodion ym mlychau 6.3 a 6.4 gynnwys y cyfryw incwm sy'n drethadwy ar y gyfradd ddechreuol sef 10%, y gyfradd sylfaenol sef 22% a'r gyfradd uwch sef 40%.
- dylai cofnodion ym mlychau 6.3A a 6.4A gynnwys incwm difidend sy'n deillio o gwmni yn y DU ynghyd ag incwm arall sy'n drethadwy ar y gyfradd gyffredin sef 10% a'r gyfradd ddifidend uwch o 32.5%.
- nodwch fanylion yr asedion a drosglwyddwyd a manylion ymddiriedolaethau, cwmnïau ac endidau eraill alltraeth sy'n berthnasol yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 6.39 ar dudalen F5.

blwch 6.3 a 6.3A Adiwch y ffigurau priodol yng ngholofn C at ei gilydd a rhowch y cyfansymiau yn y blwch perthnasol, 6.3 neu 6.3A.

blwch 6.4 a 6.4A Adiwch y ffigurau yng ngholofn E at ei gilydd a rhowch y cyfansymiau yn y blwch perthnasol, 6.4 neu 6.4A.

Efallai y byddwch yn atebol i dreth incwm ar yr incwm a gafwyd gan gwmni tramor ac a nodwyd gennych ym mlwch 6.4. O dan rai amgylchiadau efallai y bydd cwmni o'r fath hefyd yn atebol i dreth gorfforaeth y DU ar yr hyn sydd i bob pwrpas 'yr un 'incwm. Gallai hyn ddigwydd lle mae'r cwmni wedi'i gofrestru dramor ond caiff ei reoli'n ganolog yn y DU.

Os byddwch wedi cofnodi swm o incwm a gafwyd gan y fath gwmni ym mlwch 6.4, ac os talwyd Treth Gorfforaeth y DU ar swm sydd gyfwerth a'i incwm, gan y cwmni hwnnw, gallwch wneud cais am ryddhad credyd ar gyfer Treth Gorfforaeth y DU a dalwyd (a heb ei ad-dalu) gan y cwmni, ar y swm sydd gyfwerth ag incwm y cwmni. Gallwch wneud cais am y rhyddhad credyd ym mlwch 6.9 y Ffurflen Dreth (hynny yw, ynghyd â cheisiadau am ryddhad credyd treth dramor am dreth dramor a dalwyd). Peidiwch â nodi Treth Gorfforaeth y DU yng ngholofn C neu ym mlwch 6.3. Rhowch fanylion llawn ynglŷn â sut rydych wedi cyfrifo swm credyd a wnaethoch gais amdano, ynghyd â manylion (enw, cyfeiriad, cyfeirnod treth) y cwmni a dalodd y dreth, ym mlwch 6.39 ar dudalen F5.

Os na wyddoch eto faint o Dreth Gorfforaeth a dalwyd ar incwm cyfatebol y cwmni, neu os nad yw'r cwmni wedi talu ei rwymedigaeth i dreth yn llawn (er enghraifft os yw cyfnod cyfrifo'r cwmni y naill ochr i ddiwedd y Flwyddyn Dreth), dylech amcangyfrif y credyd sydd ar gael a diwygio'r Ffurflen Dreth pan fyddwch yn gwybod y manylion terfynol. Mae'n rhaid i chi dynnu sylw at yr amcangyfrif trwy dicio blwch 23.2 y Ffurflen Dreth ac esbonio'r amgylchiadau yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 23.7 (gweler tudalen 31 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth). Byddwn yn ystyried rhoi manylion o'r Dreth Gorfforaeth a dalwyd ar ôl derbyn caniatâd ysgrifenedig gan y cwmni dan sylw. Bydd yr amodau arferol ar gyfer codi llog ar dreth a delir yn hwyr yn gymwys.

Efallai y bydd yn rhaid i chi gwblhau Tudalennau Ymddiriedolaeth ac ati, os derbynioch incwm o ymddiriedolaeth. Gofynnwch i'r Llinell Archebu am y Tudalennau Ymddiriedolaeth ac am *IR270: Trusts and settlements – income treated as the settlor's.*

Incwm arall o dramor

Gwaredu daliadau mewn cronfeydd alltraeth

blwch 6.5 Efallai y bydd angen cofnod yn y blwch hwn os ydych wedi gwaredu 'buddiant perthnasol' mewn cronfa alltraeth, os nad yw'r gronfa honno wedi ei chymhwyso ar gyfer '**statws cronfa ddosbarthu**' am y cyfnod y bu'r buddiant ynddi yn eich meddiant (gweler isod am eglurhad ar '**buddiant perthnasol**' a '**statws cronfa ddosbarthu**').

Dylai **incwm** a gewch o'r gronfa alltraeth gael ei gofnodi ar Dudalen F1 neu ar dudalen 3 eich Ffurflen Dreth, fel y bo'n briodol. Gall y daleb neu reolwr eich cronfa roi manylion perthnasol ynglŷn â'r math o incwm sy'n codi.

Mae cronfa alltraeth yn gynllun buddsoddi cyfunol pan na fydd yr ymddiriedolwyr neu'r gweithredwyr yn preswylio yn y DU. Er enghraifft, ymddiriedolaeth uned a weithredir o dan gyfraith Jersey ac mae SICAV Gwlad Belg yn gronfa alltraeth. Heblaw am gwmnïau buddsoddi penagored, nid yw cwmnïau di-breswyl yn gronfeydd alltraeth.

Mae gennych **fuddiant perthnasol** mewn cronfa alltraeth, os ar adeg ei chaffael, byddech i bob pwrpas yn disgwyl sylweddoli eich buddsoddiad (fel arfer drwy adbryniant) o fewn y saith mlynedd ddilynol, am tua gwerth marchnad asedion y gronfa yr oedd eich buddiant yn ei gynrychioli ar yr adeg honno.

Mae cronfa alltraeth yn gymwys ar gyfer **statws cronfa ddosbarthu** os yw'n dosbarthu y rhan helaethaf o'r incwm i'w buddsoddwyr bob blwyddyn. Gallwch ddarganfod a yw eich cronfa alltraeth yn gymwys drwy edrych ar y cyfrifon blynyddol ar gyfer pob blwyddyn y bu gennych fuddiant, neu gallwch ofyn rheolwr y gronfa. Mae rhestr o gronfeydd alltraeth sy'n dangos y blynyddoedd y buont yn gymwys am **statws cronfa ddosbarthu** ar gael yn **www.hmrc.gov.uk/offshorefunds**. Os nad yw eich cronfa ar y rhestr, mae'n golygu na fu ganddi **statws cronfa ddosbarthu** erioed.

Pan **nad yw** cronfa alltraeth wedi cymhwyso am **statws cronfa ddosbarthu** trwy gydol y cyfnod pan fu gennych fuddiant perthnasol ynddi, bydd yr 'ennill' heb fynegeio a wnewch pan waredwch eich buddiant yn y gronfa yn agored i **Dreth Incwm** fel '**ennill incwm alltraeth**' a rhaid nodi swm yr ennill **ym mlwch 6.5**. Nid yw ennill incwm alltraeth yn gymwys ar gyfer rhyddhad meinhau enillion cyfalaf.

Mae rhai cronfeydd alltraeth sydd wedi cymhwyso am **statws cronfa ddosbarthu** yn gweithredu **trefniadau cydraddoli**. Golyga hyn, pan fyddwch yn gwaredu eich buddiant mewn cronfa o'r fath, gall derbyniadau o'r gwerthiant gynnwys incwm sydd wedi cronni i chi ers dyddiad y dosbarthiad diwethaf. Felly bydd rhan o'r ennill yn agored i Dreth Incwm. Dangosir y swm hwn fel arfer ar y daleb adbryniant a roddir i chi gan reolwr y gronfa a rhaid ei **nodi ym mlwch 6.5**. Dylid dangos y gweddill ar Dudalennau Enillion Cyfalaf y Ffurflen Dreth.

Pan fydd cronfa alltraeth wedi cymhwyso am **statws cronfa ddosbarthu** trwy gydol y cyfnod y buoch yn berchen ar eich buddiant ynddi, yna dylai'r ennill neu'r golled gael ei ddatgan ar Dudalennau Enillion Cyfalaf pan waredwch y buddiant ac **nid ym mlwch 6.5**. Os yw hwn yn berthnasol, gallwch gael copïau o'r Tudalennau Enillion Cyfalaf o'r Llinell Archebu.

Incwm o ymddiriedolaethau di-breswyl

blwch 6.5 Os oes gennych hawl absoliwt i'r incwm o ymddiriedolaeth ddi-breswyl nad yw yn y DU, nodwch incwm o'r ffynhonnell dramor ar Dudalennau F1 ac F2 ac ym mlychau 6.1 i 6.4 yn ôl natur yr incwm. Dylid nodi incwm o ffynhonnell yn y DU yn y Tudalennau Ymddiriedolaethau ac ati ym mlychau 7.1 i 7.12 (neu fel y nodwyd yn y nodiadau ar gyfer y blychau hynny ar dudalen TN1 y Nodiadau ar Ymddiriedolaethau ac ati).

Os ydych wedi derbyn taliad dewisiadol o'r ymddiriedolaeth ddi-breswyl yn y DU, nodwch yr holl incwm ym mlwch 6.5. Os hoffech wneud cais o dan Gonsesiwn All-statudol B18, ffoniwch y Centre for Non-Residents ar **0845 070 0040**.

Buddiannau a dderbyniwyd o ymddiriedolaethau, cwmnïau ac endidau eraill dramor

blwch 6.5 Os bydd rhywun arall wedi gwneud yr un math o drosglwyddiad asedion y soniwyd amdano yn y nodyn ar dudalen FN11 'Incwm a gafwyd gan ymddiriedolaethau, cwmnïau ac endidau eraill', caiff gwerth y taliad neu unrhyw fudd arall a gewch ei drin fel eich incwm at ddibenion treth i'r graddau bod gan y cwmni, ymddiriedolaeth neu endid arall 'incwm nas gwariwyd'. Mae incwm nas gwariwyd yn golygu incwm nad yw eisoes wedi mynd yn incwm unigolyn arall neu nad yw fel arall wedi cael ei wario gan y cwmni, ymddiriedolaeth neu endid arall. Ni chaiff incwm a gododd cyn 10 Mawrth 1981 ei gyfrif at y diben hwn. Caiff 'ennill digwyddiad trethadwy' ar bolisi yswiriant bywyd, blwydd-dâl neu bolisi adbrynu cyfalaf yn y DU neu un tramor ei drin fel incwm at y diben hwn os delir yr hawliau o dan y polisi neu'r blwydd-dâl:

- gan ymddiriedolaeth ddi-breswyl ac ni chodir treth y DU ar yr ennill ar y person a greodd yr ymddiriedolaeth. (Os delir yr hawliau o dan bolisi neu flwydd-dâl mewn ymddiriedolaeth, fel arfer caiff unrhyw ennill ei drin fel incwm y person a greodd yr ymddiriedolaethau. Ond nid yw hyn yn wir os crëwyd yr ymddiriedolaeth gan unigolyn sy'n ddi-breswyl neu sydd wedi marw. Nid yw hyn yn wir ychwaith os crëwyd yr ymddiriedolaeth gan gwmni neu endid arall os yw'r cwmni neu endid arall yn ddi-breswyl, wedi ei ddiddymu, wedi'i ddirwyn i ben neu fel arall wedi dod i ben. Sylwer, os mai chi yw buddiolwr ymddiriedolaeth hawl absoliwt caiff unrhyw ennill ei drin fel arfer fel eich incwm. Dylai gael ei gynnwys ym mlychau 12.4 i 12.8 ar eich Ffurflen Dreth, sef y blychau ar gyfer enillion digwyddiad trethadwy.); **neu**
- fel gwarant ar gyfer dyled sy'n eiddo i ymddiriedolaeth ddi-breswyl; **neu**
- gan endid dramor; **neu**
- fel gwarant ar gyfer dyled sy'n eiddo i endid dramor.

Ni chaiff ennill ei gyfrif at y dibenion hyn os bydd y pwynt bwled cyntaf neu'r ail un uchod yn gymwys ond;

- gwnaed y polisi neu'r blwydd-dâl cyn 17 Mawrth 1998 (Diwrnod y Gyllideb); **a**
- nid yw'r polisi neu'r blwydd-dâl wedi cael ei 'wella' ar neu ar ôl 17 Mawrth 1998 drwy dalu premiymau pellach heb gontract neu mewn ryw ffordd arall; **a**
- crëwyd yr ymddiriedolaethau gan unigolyn a fu farw cyn 17 Mawrth 1998, neu os y crëwyd gan fwy nag un person, yr oedd o leiaf un o'r personau hynny yn unigolyn a fu farw cyn y dyddiad hwnnw.

Ni chaiff ennill ar bolisi neu flwydd-dâl bywyd ei gyfrif fel incwm nas gwariwyd os oedd y digwyddiad trethadwy cyn 6 Ebrill 2000.

Os cawsoch eich taliad neu fudd arall gan ymddiriedolaeth yn y DU sydd naill ai wedi bod yn ddi-breswyl, neu sydd wedi cael asedion o ymddiriedolaeth sydd naill ai yn ddi-breswyl neu wedi bod yn ddi-breswyl, dim ond incwm nas gwariwyd a gododd tra bu'r ymddiriedolaeth berthnasol dramor y dylech ei gyfrif. Bydd enillion digwyddiad trethadwy yn cyfrif os oedd yr ymddiriedolaeth yn ddi-breswyl yn union cyn y digwyddiad trethadwy. Os nad ydych yn siŵr a yw hyn yn gymwys i'ch amgylchiadau chi, gofynnwch i'r ymddiriedolwyr neu'ch cynghorydd treth.

Am ragor o wybodaeth am enillion a digwyddiadau trethadwy ar bolisïau a blwydd-daliadau bywyd, gweler y nodiadau ar gyfer blychau 12.1 i 12.5 ar dudalennau 17 i 18 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth, y nodiadau ar gyfer blychau 6.6 i 6.8 isod, a *Thaflenni Cymorth IR320* ac *IR321*. Mae'r Taflenni Cymorth hyn hefyd yn egluro sut mae'r rheolau yn gymwys i ymddiriedolaeth a grëwyd gan fwy nag un person.

Mae 'buddiannau' yn cynnwys, er enghraifft, benthyciadau am lai na chyfradd llog fasnachol a meddiannu neu ddefnyddio eiddo am lai na rhent masnachol, gwerth y budd yw'r gwahaniaeth rhwng y swm sy'n daladwy ar y gyfradd llog fasnachol neu rent ac unrhyw swm a dalwyd mewn gwirionedd gennych chi.

Bydd ymddiriedolaeth yn ddi-breswyl os bydd yr holl ymddiriedolwyr ynddynt eu hunain yn preswylio y tu allan i'r DU. Gallai ymddiriedolaeth fod yn ddi-breswyl hefyd os bydd o leiaf un o'i ymddiriedolwyr yn preswylio y tu allan i'r DU - gofynnwch i'r ymddiriedolwyr neu'ch cynghorydd treth os nad ydych yn siŵr a gaiff yr ymddiriedolaeth ei thrin fel un sy'n ddi-breswyl. Mae'n rhaid cynnwys unrhyw beth a dderbyniwyd yn 'anuniongyrchol', er enghraifft, os daeth y cyfalaf neu'r budd o gwmni a reolir gan yr ymddiriedolwyr neu o ymddiriedolaeth breswyl yn y DU sydd wedi bod, neu sydd wedi cael arian o, ymddiriedolaeth dramor.

Os cawsoch gyfalaf neu fudd (heblaw incwm) yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ymddiriedolaeth sydd neu sydd wedi bod yn un di-breswyl, neu sydd wedi derbyn asedion o ymddiriedolaeth sydd, neu sydd wedi bod yn un di-breswyl, nodwch werth y taliad neu'r budd hwnnw i'r graddau y caiff ei gyfateb gan incwm nas defnyddiwyd ym mlwch 6.5 (oni bai eich bod yn ticio blwch 6.5A am y rheswm a roddir isod). Os bydd y taliad neu'r budd yn fwy na'r incwm nas gwariwyd, nodwch ym mlwch 6.5 swm yr incwm nas gwariwyd. Efallai y bydd yn rhaid i chi ofyn i'r cwmni, ymddiriedolaeth neu endid arall dramor am yr wybodaeth hon. Dylech gynnwys gwerth unrhyw daliad neu fudd a gafwyd mewn blwyddyn gynharach os ac i'r graddau na chafodd hwn ei drethu mewn blynyddoedd cynharach. Os bydd gwerth yr hyn a gawsoch neu y gwnaethoch elwa arno yn fwy na'r incwm nas gwariwyd sydd gan y cwmni, ymddiriedolaeth neu endid arall dramor, gallech fod yn atebol i Dreth Enillion Cyfalaf ar y gorswm. Efallai y bydd angen *Taflen Gymorth IR301: Calculation of the increase in tax charge on capital gains from non-resident, dual resident and immigrating trusts* yn

ogystal â'r Tudalennau Enillion Cyfalaf, ac mae'r ddwy ar gael o'r Llinell Archebu. Fel arall bydd angen ystyried y gorswm hwnnw wrth gwblhau eich Ffurflen Dreth y flwyddyn nesaf. Nodwch hefyd yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 6.39 ar Dudalen F5 enw a chyfeiriad llawn y cwmni neu endid arall sy'n derbyn yr incwm. Pan fydd y cyfalaf neu fudd arall wedi dod o ymddiriedolaeth breswyl yn yr amgylchiadau a ddisgrifir uchod, rhowch fanylion hefyd am yr amgylchiadau gan gynnwys enw llawn unrhyw ymddiriedolaeth arall dan sylw.

blwch 6.5A Nid yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â throsglwyddiad asedion yn gymwys os gallwch ddangos nad pwrpas y trosglwyddiad nac unrhyw weithrediadau cysylltiol oedd osgoi treth. Ond os byddwch yn hepgor incwm am y rheswm hwn o flychau 6.4, 6.4A neu 6.5 mae'n rhaid i chi rhoi tic ym mlwch 6.5A a nodi manylion yr incwm a hepgorwyd, ynghyd â manylion yr asedion a drosglwyddwyd a manylion am ymddiriedolaethau, cwmnïau alltraeth ac ati, sy'n ymwneud â hyn, yn y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol', blwch 6.39 ar dudalen F5.

Enillion ar bolisïau yswiriant bywyd, blwydd-daliadau bywyd a pholisïau adbrynu cyfalaf tramor

blychau 6.6 i 6.8 Mae blychau 6.6 i 6.8 yno er mwyn i chi gynnwys manylion enillion a wnaethoch ar bolisïau yswiriant bywyd dramor, blwydd-dâl bywyd a pholisïau adbrynu cyfalaf. Caiff polisi neu flwydd-dâl a drefnir gyda changen yswiriwr tramor yn y DU ei drin fel polisi tramor. Peidiwch â chynnwys manylion incwm ac enillion o bensiwn neu flwydd-dâl bywyd yn y blychau hyn.

Pwrpas y nodiadau hyn yw eich helpu chi i benderfynu a ydych wedi gwneud 'ennill' ar bolisi neu flwydd-dâl tramor, ac os felly, beth i'w gynnwys ar eich Ffurflen Dreth.

Beth sy'n peri ennill

Os ydych yn ystod y flwyddyn:

- wedi codi neu wedi derbyn arian parod neu fuddiannau eraill o bolisi yswiriant bywyd tramor, blwydd-dâl bywyd neu bolisi adbrynu cyfalaf wrth i chi ildio neu wrth iddo aeddfedu neu ar farwolaeth, **neu**
- wedi gwerthu y cyfan neu ran o bolisi yswiriant bywyd tramor, blwydd-dâl bywyd neu bolisi adbrynu cyfalaf (gan gynnwys fel rhan o drefniadau ysgaru neu wahanu), **neu**
- wedi cael benthyciad gan gwmni yswiriant neu o dan eich cyfarwyddyd, wedi rhoi benthyciad i rywun arall mewn perthynas a pholisi yswiriant bywyd dramor blwydd-dâl bywyd neu bolisi adbrynu cyfalaf, **neu**
- wedi dal Bond Portffolio Personol gydag yswiriwr tramor (hyd yn oed os nad yw'r yswiriwr wedi talu arian parod neu fuddiannau eraill yn ystod y flwyddyn mewn perthynas a'r Bond hwnnw), **neu**
- gwnaed unrhyw un o'r pethau a restrwyd o dan y pedwar pwynt blaenorol gan:
  - ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth a grëwyd gennych neu a gyfrannoch ati, **neu**
  - ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth wag yr ydych yn fuddiolwr ynddi, **neu**
  - unrhyw un sy'n dal polisi yn eu henwau eu hunain fel eich enwebai, **neu**
  - benthyciwr yr oedd eich polisi wedi ei aseinio iddo yn flaenorol fel sicrwydd am ddyled

yna efallai y byddwch wedi gwneud ennill y dylech ei nodi ym mlwch 6.8. Ni fydd enillion yn codi os byddwch wedi rhoi'r cyfan neu ran o'ch polisi i rywun arall a heb dderbyn unrhyw beth yn ôl.

Mae 'enillion' yn y nodiadau hyn yn golygu enillion digwyddiad trethadwy a gânt eu trethu fel incwm. Cânt eu cynnwys i bob diben, yn eich incwm, gan gynnwys hawl i lwfans personol ar sail oedran a chredydau treth. Weithiau bydd yswirwyr yn cyfeirio atynt fel 'enillion trethadwy' ond nid 'enillion cyfalaf' mohonynt, felly ni ellir gosod rhyddhad (megis rhyddhad meinhau), colledion cyfalaf neu'r swm blynyddol a eithrir i gyfrifo enillion cyfalaf yn eu herbyn.

O dan drefniadau a wnaed gyda ni, os bydd eich cwmni yswiriant tramor yn gwybod (fel arfer bydd y cwmni'n gwybod) fod rhywbeth wedi digwydd sydd wedi arwain at ennill digwyddiad trethadwy efallai y bydd wedi rhoi gwybod y buddiannau a dalwyd neu swm yr ennill. Efallai y bydd eich cwmni yswiriant wedi dweud wrthych hefyd beth yw swm yr ennill a wnaethoch. Os felly, dyma'r swm y dylech nodi ar eich Ffurflen Dreth, oni bai y gwnaed yr ennill gan fwy nag un person. Yn yr achos hwnnw dylech gyfeirio at yr adran isod o dan y pennawd 'Ennill a wnaed gan fwy nag un person'. Mae'r rheolau ynglŷn â chyfrifo'r ennill yn dibynnu ar y math o ddigwyddiad, ond yn gyffredinol ni fydd yr ennill yr un faint â'r swm a gawsoch.

Caiff Bond Portffolio Personol ei drin fel petai yn peri ennill blynyddol, er nad yw'r yswiriwr wedi talu unrhyw fudd-daliadau ac nid oes unrhyw ran o'r polisi wedi'i werthu. Mae Bond Portffolio Personol yn bolisi yswiriant bywyd, blwydd-dâl bywyd neu'n bolisi adbrynu cyfalaf lle pennir y budd-daliadau sy'n daladwy gan werth eiddo y deiliad polisi ac a ddewisir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan ddeiliad y polisi. Os ydych yn ansicr, **gofynnwch i'ch yswiriwr i ddweud pa fath o bolisi neu flwydd-dâl sydd gennych, a ph'un a oes digwyddiad trethadwy ac ennill wedi codi.** Cewch arweiniad pellach, gan gynnwys gwybodaeth ar sut i gyfrifo eich ennill ar Fondiau Portffolio Personol yn *Nhaflen Gymorth IR321: Gains on Foreign Life Insurance Policies.* Mae hon ar gael o'r Llinell Archebu neu ar y rhyngrwyd yn **www.hmrc.gov.uk**

A yw'r polisi yn bolisi tramor?

Mae polisi yn bolisi tramor os cafodd ei gyhoeddi gan gwmni yswiriant y tu allan i'r DU. Caiff polisi a drefnir gyda changen cwmni yswiriant tramor yn y DU ei drin fel polisi tramor. Bydd y gangen yn y DU wedi anfon tystysgrif atoch os byddwch wedi gwneud 'ennill', gan ddweud wrthych faint yw'r ennill. Os oes gennych amheuon ynglŷn ag a yw eich polisi yn un o'r mathau hyn, bydd eich yswiriwr yn gallu dweud wrthych os yw hynny'n wir.

Gall yswiriwr yn y DU hefyd roi polisi tramor fel rhan o'i 'Fusnes Yswiriant Bywyd Tramor'. Mae hwn yn fath o bolisi a werthir gan yswiriwr yn y DU i berson, a oedd ar adeg ei drefnu, yn byw y tu allan i'r DU. Mae enillion o'r math hyn o bolisi yn mynd ar y tudalennau Tramor os cafodd y polisi ei drefnu **ar neu ar ôl 17 Mawrth 1998.** Fodd bynnag, caiff enillion o bolisïau Aswiriant Bywyd Busnes Tramor a wnaed **cyn** 17 Mawrth 1998 eu trin fel petaent o bolisïau y DU, a dylech nodi manylion y fath enillion ym mlychau 12.1 i 12.5 eich Ffurflen Dreth. Os credwch y gallech fod wedi gwneud ennill ar bolisi Aswiriant Bywyd Busnes Tramor a wnaed ar neu ar ôl 17 Mawrth 1998 ond heb dderbyn tystysgrif, cysylltwch â'ch cwmni yswiriant.

A fydd unrhyw daliad gan eich Yswiriwr yn drethadwy?

Nid yw rhai polisïau yswiriant bywyd tramor yn peri enillion. Gall y polisi, er enghraifft, fod yn bolisi yswiriant bywyd cymhwysol'. Mae hyn ond yn bosibl os trefnwyd y polisi cyn 18 Tachwedd 1983, onid yw'n bolisi a drefnwyd gan gangen yn y DU o gwmni yswiriant tramor. Nid yw'r rhan fwyaf o bolisïau tramor yn bolisïau cymhwysol, ond os fel eithriad y credwch y gallai fod un o'r rhain gennych, dylech ddarllen *Taflen Gymorth IR321: Gains on Foreign Life Insurance policies.*

Hyd yn oed os nad yw eich polisi yn 'bolisi cymhwysol', efallai na fydd y taliad neu'r budd-dâl penodol a gawsoch wedi peri ennill trethadwy. Ni fydd taliadau a gewch, i fyny at 5% o'r premiymau a dalwyd, yn peri ennill trethadwy. Mae'r uchafswm yn gyfwerth â swm y premiwm a dalwyd. Yn lle hynny, bydd unrhyw ennill a wnewch ar y polisi, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw arian a dynnwyd allan, yn cael ei drethu pan ddaw'r polisi i ben. O dan hunanasesiad nid oes angen i chi gynnwys manylion taliadau o bolisïau yswiriant sy'n parhau yn is na'r terfyn o 5% ar eich Ffurflen Dreth. Os bydd taliadau yn uwch na 5%, yr hyn sy'n weddill dros y 5% fydd swm yr ennill – am ganllawiau ar sut i gyfrifo'r ennill yn yr achosion hyn, gweler enghreifftiau 4 i 7 yn *Nhaflen Gymorth IR321*.

Cwblhau blychau 6.6 i 6.8

Mae'r ffordd a gwblhewch flychau 6.6 i 6.8 yn dibynnu ar bryd y trefnwyd y polisi, pa mor hir y buoch yn preswylio yn y DU yn ystod cyfnod y polisi, y nifer a'r mathau o bolisïau yn ystod y flwyddyn a ph'un a gânt eu trin fel rhai sydd wedi eu trethu ai peidio. Dylech nodi swm llawn yr enillion a wnaethoch ar y Ffurflen Dreth.

Os gwnaethoch ennill o fwy nag un polisi tramor, ewch i'r adran isod o dan y pennawd 'Enillion lluosog' Os gwnaethoch un ennill yn unig, o bolisi tramor, cwblhewch flychau 6.6 i 6.8 fel a ganlyn.

Swm yr ennill a chyfnodau o breswylio y tu allan i'r DU

blwch 6.8 Fel arfer dylech nodi swm llawn yr ennill ym mlwch 6.8. Fodd bynnag, gostyngir rhai enillion ar gyfer cyfnodau o breswylio y tu allan i'r DU ers prynu'r polisi. Mae *Taflen Gymorth IR321: Gains on Foreign Life Policies*, yn cynnwys mwy o wybodaeth. Cyfnod pan oeddech yn preswylio y tu allan i'r DU yw'r unig reswm allai fod gennych ar gyfer nodi llai ar eich Ffurflen Dreth na swm yr ennill a wnaethoch ar y polisi, os mai chi yw'r unig berson sy'n drethadwy ar yr ennill hwnnw. Peidiwch â rhannu swm yr ennill trethadwy gyda nifer y blynyddoedd y bu'r polisi gennych.

Treth incwm yn cael ei thrin fel petai wedi ei thalu?

blwch 6.7 Mae'r rhan fwyaf o enillion o bolisïau yswiriant a blwydd-daliadau tramor yn drethadwy yn llawn. Pan, yn ôl yr hyn fydd yn gyffredin gydag enillion o bolisi tramor, ni chaiff treth ei thrin fel treth a dalwyd ar yr ennill, dylech adael blwch 6.7 yn wag yna dylech adael bwlch 6.7 yn wag.

Eithriad i hyn yw pan fydd y polisi wedi'i drefnu gyda changen o gwmni yswiriant tramor yn y DU. Caiff enillion ar bolisïau o'r fath eu trin fel petaent wedi eu trethu ar y gyfradd isaf. Bydd y dystysgrif a gawsoch gan y gangen yn y DU yn dweud wrthych pa swm o dreth i'w nodi ym mlwch 6.7.

Os fel eithriad gwnaethoch ennill ar bolisi tramor nas prynwyd mewn cangen yn y DU o gwmni yswiriant tramor ond a chaiff ei drin fel petai treth wedi ei thalu arno eisoes, nodwch swm yr ennill ym mlwch 6.8. Nodwch swm y dreth a chafodd ei thrin fel petai wedi'i thalu ym mlwch 6.7. Swm y dreth fyddai 20% y swm ym mlwch 6.8. Os credwch y gallai'r ennill gael ei drin fel petai treth wedi'i thalu arno ac nid yw'r polisi gyda changen o gwmni yswiriant tramor yn y DU, dylech gyfeirio at *Taflen Gymorth IR321: Gains on Foreign Life Insurance Policies.*

Nifer y blynyddoedd

blwch 6.6 Mae angen i chi nodi nifer y blynyddoedd ym mlwch 6.6 neu yn y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol', blwch 23.9 ar dudalen 10 eich Ffurflen Dreth, dim ond er mwyn cyfrifo p'un ai yw rhyddhad yn ddyledus os nad ydych yn atebol i dreth ar gyfradd uwch eich incwm, ar wahân i'ch ennill. Nid yw'n newid swm yr ennill sy'n agored i dreth, er y gallai olygu fod peth neu'r holl ennill yn drethadwy ar gyfradd ddechreuol neu sylfaenol yn hytrach na chyfradd uwch. Mae hyn yn dibynnu ar eich incwm arall. Nid yw'r rhyddhad yn newid swm y gyfradd ddechreuol neu sylfaenol y mae'n rhaid i chi ei thalu ar yr ennill.

Fel arfer, nifer y blynyddoedd llawn ers i'r polisi neu'r blwydd-dâl ddechrau yw nifer y blynyddoedd i'w nodi ym mlwch 6.6 ar dudalen 10 y Ffurflen Dreth.

Os gostyngir ennill oherwydd cyfnod preswylio y tu allan i'r DU, mae nifer y blynyddoedd cyflawn a nodwch yn cael eu gostwng hefyd ond byth o dan '1'.

Efallai y bydd y rheolau ar gyfer cwblhau blychau 6.6 i 6.8 ar dudalen F3 yn wahanol os yw'r ennill yn codi mewn perthynas â:

- polisi bywyd tramor a drefnwyd ar neu cyn 17 Tachwedd 1983 ac na chafodd ei 'wella' ers y dyddiad hwnnw,
- polisi adbrynu cyfalaf tramor a drefnwyd ar neu cyn 22 Chwefror 1984 ac na chafodd ei 'wella' ers y dyddiad hwnnw.

Os oes gennych un o'r mathau hyn o bolisïau, mae *Taflen Gymorth IR321: Gains on Foreign Life Insurance Policies* yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynglŷn â pha beth y dylid ei gofnodi ar y Ffurflen Dreth.

Ennill a wnaed gan fwy nag un person

Lle rydych yn berchen ar bolisi yn rhannol gyda nifer o berchnogion eraill, dylech gynnwys dim ond eich cyfran chi o'r 'ennill' ar dudalennau tramor eich Ffurflen Dreth. Os ydych yn berchen y polisi ar y cyd gyda'ch priod neu'ch partner sifil, dylai'r ddau ohonoch nodi hanner yr ennill a ddangosir ar y dystysgrif a hefyd hanner y dreth, a gaiff ei thrin fel ei bod yn daladwy, os o gwbl.

- Os nad chi a'ch priod neu'ch partner sifil yw'r aml berchnogion, **neu**
- cododd yr ennill mewn cysylltiad â pholisi a ddelir mewn ymddiriedolaeth y gwnaethoch chi a phersonau eraill ei chreu neu a gyfrannoch ati, **neu**
- cododd yr ennill mewn cysylltiad â pholisi a aseiniwyd fel sicrwydd am ddyled sy'n ddyledus gennych chi a phersonau eraill

gweler yr adran o dan y pennawd 'Rhannu ennill lle mae cyd berchnogion neu aml berchnogion neu fuddiannau' yn *Nhaflen Gymorth IR321* am arweiniad pellach ar sut i ddyrannu'r ennill rhyngoch.

Enillion lluosog

Mae llawer o becynnau yswiriant yn cynnwys clwstwr o bolisïau yswiriant bywyd tebyg a drefnwyd ar yr un adeg gyda'r un yswiriwr. **Os oes gennych enillion o fwy nag un polisi, ac maent i gyd yn enillion tebyg o bolisïau tebyg**, dylech eu hychwanegu at ei gilydd a chynnwys cyfanswm yr enillion a chyfanswm y dreth a chafodd ei thrin fel treth a dalwyd. Dilynwch yr arweiniad uchod pan fyddwch yn cwblhau blychau 6.6 i 6.8.

Os byddwch wedi gwneud ennill ar fwy nag un polisi nad oeddynt yn debyg, wedi eu trefnu ar yr un adeg gyda'r un yswiriwr, dylech nodi manylion yn y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol', blwch 23.9 ar dudalen 10 eich Ffurflen Dreth. Disgrifiwch bob polisi, blwydd-dâl bywyd neu glwstwr o bolisïau tebyg. Nodwch swm yr enillion, nifer y blynyddoedd cyflawn a gwblhawyd a swm unrhyw dreth a gafodd ei thrin fel petai wedi'i thalu. Ychwanegwch at ei gilydd yr holl enillion a'r dreth a chafodd ei thrin fel petai wedi'i thalu a throsglwyddwch eich ateb i flychau 6.8 a 6.7 fel y bo'n briodol. Peidiwch â nodi nifer y blynyddoedd ym mlwch 6.6.

Diffygion sy'n codi o bolisïau yswiriant bywyd, blwydd-daliadau bywyd a pholisïau adbrynu cyfalaf

Gall rhyddhad, a elwir yn 'rhyddhad diffyg cyfatebol,' fod yn ddyledus yn achlysurol pan fydd polisi yswiriant bywyd, contract blwydd-dâl bywyd neu bolisi adbrynu cyfalaf dramor yn dod i ben yn ystod 2005-06. Bydd y rhyddhad ond yn ddyledus os byddwch wedi gwneud un neu ragor o 'enillion' blaenorol, yn ystod cyfnod y polisi o ganlyniad i dynnu'n ôl yn rhannol neu aseinio'n rhannol buddiannau sy'n werth fwy na 5% y premiwm mewn blwyddyn a rydych hefyd yn atebol i dreth ar y gyfradd uwch yn 2005-06. Os credwch fod y rhyddhad hwn yn gymwys i chi, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR321: Gains on foreign life insurance policies.* a darllenwch yr adran o dan y pennawd 'The result of the calculation is not a positive amount'. Nodwch y rhyddhad sy'n ddyledus i chi ym mlwch 12.9 eich Ffurflen Dreth.

Cwblhau Tudalen F3

Cwblhewch Dudalen F3 os ydych yn gwneud cais am ryddhad credyd treth dramor ar incwm neu enillion a gofnodwyd rywle arall yn eich Ffurflen Dreth.

Cwblhewch Dudalen F3 os ydych wedi cwblhau'r Tudalennau, Cyflogaeth, Hunangyflogaeth, Partneriaeth neu Enillion Cyfalaf **neu** flychau 13.1 i 13.3 'Incwm arall' ar dudalen 4 eich Ffurflen Dreth ac os ydych wedi talu treth dramor ar yr incwm hwnnw neu'r enillion hynny ac os ydych am wneud cais am ryddhad credyd treth dramor ar gyfer y dreth dramor.

Ni allwch wneud cais am ryddhad credyd treth dramor ar gyfer unrhyw dreth dramor rydych wedi ei didynnu wrth gyfrifo swm trethadwy unrhyw ran o'ch incwm (neu'ch enillion).

Rhyddhad credyd treth ar gyfer treth dramor a dalwyd ar gyfflogaeth, hunan-gyflogaeth ac incwm arall

Ar gyfer incwm drwy aelodaeth Lloyd's, gweler tudalen LUN11 y Nodiadau ar Dansgrifenwyr Lloyd's am arweiniad i gwblhau'r rhan hon o'r Tudalennau Tramor.

colofn A Nodwch enw'r wlad y cododd yr incwm ynddi ac y didynnwyd treth o'r incwm hwnnw.

colofn D Nodwch swm y dreth dramor a dalwyd mewn sterling.

colofn E Nodwch swm gros yr incwm rydych wedi ei gofnodi rywle arall ac y talwyd treth dramor arno.

Os oedd gennych fasnach, proffesiwn neu alwedigaeth yn y DU, ac mae derbyniadau gros y busnes yn cynnwys incwm rydych wedi talu treth dramor arno, mae'n rhaid i chi gyfrifo swm yr elw cyffredinol y gellir ei briodoli i'r derbyniadau tramor. Gwnewch hyn drwy briodoli'r elw mewn cyfrannedd â'r trosiant daearyddol, neu drwy ddyraniad manylach o'r busnes yn erbyn y derbyniadau tramor.

Os mai ffynhonnell yr incwm yw cangen tramor busnes yn y DU, nodwch yng ngholofn E yr elw gros a enillwyd gan y gangen. **Efallai y gofynnir i chi yn ddiweddarach am gopi o gyfrifon y gangen.**

Masnachau, proffesiynau a galwedigaethau a sefydlwyd - elw gorgyffwrdd a rhyddhad credyd treth dramor

Os enilloch elw o fasnach, proffesiwn neu alwedigaeth yn 2005-06 ac mae eich cyfnod sail yn gorgyffwrdd â'r cyfnod sail ar gyfer 2004-05, efallai y gallech wneud cais am ryddhad credyd treth yn 2005-06 ar gyfer unrhyw dreth dramor a dalwyd ar elw'r cyfnod gorgyffwrdd, hyd yn oed os oedd rhyddhad ar gyfer yr un dreth eisoes wedi cael ei ganiatáu wrth gyfrifo eich rhwymedigaeth treth ar gyfer 2004-05.

Enghraifft 7
Dechreuodd busnes Mike ar 1 Hydref 2004. Mae ei gyfrif cyntaf ar gyfer y 12 mis hyd at 30 Medi 2005. Ei gyfnodau sail yw:

2004-05 1 Hydref 2004 i 5 Ebrill 2005
2005-06 1 Hydref 2004 i 30 Medi 2005

Y cyfnod gorgyffwrdd yw 1 Hydref 2004 i 5 Ebrill 2005 (chwe mis). Felly os mai elw'r 12 mis hyd at 30 Medi 2005 yw £12,000, yr 'elw gorgyffwrdd' yw ($^{6}/_{12}$ x 12,000) = £6,000 (dros chwe mis). Mae hwn yr un peth â'r swm asesadwy ar gyfer 2004-05.

Gadewch i ni dybio bod elw Mike am y 12 mis hyd at 30 Medi 2005 yn cynnwys elw tramor o £4,000 y mae wedi talu treth dramor o £1,500 arno. Cyfanswm y dreth dramor sydd ar gael ar gyfer rhyddhad credyd treth dramor yn y ddwy flynedd 2004-05 a 2005-06 fydd:

12 mis hyd at 30 Medi 2005	£1,500
+ cyfnod gorgyffwrdd ($^{6}/_{12}$ x £1,500)	£750
	£2,250

Y swm sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad credyd treth yn 2005-06 yw £2,250 *llai* swm y rhyddhad credyd treth a ganiateir ar gyfer yr elw gorgyffwrdd yn 2004-05. Felly, os caniatawyd £1,000 o ryddhad yn 2004-05, bydd £1,250 ar gael ar gyfer rhyddhad yn 2005-06.

Os bydd eich cyfnodau sail ar gyfer 2004-05 a 2005-06 yn gorgyffwrdd fel hyn, er mwyn cyfrifo swm y dreth dramor i'w nodi yng ngholofn D ar Dudalen F3, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR260: Overlap*.

Rhyddhad gorgyffwrdd a rhyddhad credyd treth

Gall elw gorgyffwrdd a gododd mewn blwyddyn gynharach gael ei ddidynnu fel 'rhyddhad gorgyffwrdd' wrth gyfrifo elw busnes trethadwy ar gyfer 2005-06 naill ai os:

- oeddech wedi gwerthu neu wedi cau eich busnes yn 2005-06, **neu**
- yn dilyn newid yn y dyddiad cyfrifo, mae eich cyfnod sail ar gyfer 2005-06 yn fwy na 12 mis o hyd.

Os ydych yn gwneud cais am ryddhad gorgyffwrdd ar gyfer 2005-06 ac mae'r elw gorgyffwrdd sydd ar gael yn cynnwys elw y caniatawyd rhyddhad credyd treth dramor ar gyfer treth dramor a dalwyd mewn blwyddyn gynharach, gellir adennill y cyfan neu ran o'r rhyddhad credyd treth hwnnw yn 2005-06.

Y swm i'w adennill yw swm y rhyddhad credyd treth dramor ychwanegol a ganiatawyd mewn blynyddoedd cynharach o ran yr elw gorgyffwrdd a ddidynnir fel rhyddhad gorgyffwrdd yn 2005-06.

Enghraifft 8
Mae gan Liz elw gorgyffwrdd o £5,000 a fu'n atebol i dreth dramor o £1,300.

Yn y ddwy flynedd pan oedd yr elw gorgyffwrdd yn atebol i dreth, caniatawyd cyfanswm o £1,950 o ryddhad credyd treth dramor (hynny yw, rhyddhad credyd treth ychwanegol o £1,950 *llai* £1,300 = £650) ar gyfer y dreth dramor honno.

Os didynnir £2,500 (hynny yw, hanner) yr elw gorgyffwrdd fel 'rhyddhad gorgyffwrdd' yn 2004-05, gellir adennill hanner y rhyddhad credyd treth dramor ychwanegol ($^{£650}/_{2}$ = £325) yn 2005-06.

Gofynnwch y Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR260: Overlap* os:

- rydych wedi nodi ffigur ar gyfer rhyddhad gorgyffwrdd ym mlwch 3.76 y Tudalennau Hunangyflogaeth, **ac**
- roedd rhyddhad drwy gyfrwng credyd ar gyfer treth dramor wedi ei ganiatáu'n flaenorol ar gyfer yr elw gorgyffwrdd sydd bellach wedi'i ddidynnu, **ac**
- rydych am gyfrifo eich treth.

Bydd y Daflen Gymorth yn rhoi ffigur i chi ar gyfer rhyddhad credyd treth y mae'n rhaid ei adennill. **Copïwch ef i flwch 18.4 ar eich Ffurflen Dreth.**

Os na fyddwch am gyfrifo eich treth, nodwch fanylion y rhyddhad credyd treth dramor a ganiatawyd mewn blwyddyn gynharach ar gyfer yr elw gorgyffwrdd, yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 6.39 ar Dudalen F5.

Cyfrifo eich rhyddhad credyd treth dramor

blwch 6.9 Os ydych yn cyfrifo eich rhyddhad credyd treth dramor ar eich incwm, nodwch y cyfanswm ym mlwch 6.9. Mae'r nodiadau isod yn esbonio sut i wneud hyn. Gweler y nodiadau ar dudalen FN11 hefyd, o dan y pennawd 'Incwm a dderbyniwyd gan ymddiriedolaethau, cwmnïau ac endidau eraill dramor'.

Rhyddhad credyd treth dramor ar gyfer treth dramor a dalwyd ar enillion

Nodwch y manylion canlynol ar gyfer pob digwyddiad sydd wedi arwain at ennill trethadwy yn y pum colofn ar dudalen F3 eich Tudalennau Tramor:

- symiau ennill trethadwy a gyfrifwyd gan ddilyn rheolau'r DU mewn sterling (gweler y Tudalennau Enillion Cyfalaf)
- cyfnod y berchenogaeth y cronnodd yr ennill ynddo
- swm yr enillion trethadwy mewn sterling o dan reolau treth dramor
- y cyfnod y cronnodd yr ennill tramor ynddo
- swm y dreth dramor a dalwyd mewn sterling.

blwch 6.10 Os ydych wedi cyfrifo rhyddhad credyd treth ar eich enillion, nodwch y cyfanswm ym mlwch 6.10. Defnyddiwch *Daflen Gymorth IR261: Foreign tax credit relief: capital gains* sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

Rhyddhad ar gyfer Treth Ataliedig Arbennig a dalwyd ar enillion

blwch 6.10A Os bydd Treth Ataliedig Arbennig wedi ei didynnu o dderbyniadau trafodyn a arweiniodd at ennill, gan un o'r tiriogaethau a restrwyd ar dudalen FN3, nodwch swm y Dreth Ataliedig Arbennig yma. Os yw Treth Enillion Cyfalaf yn daladwy trwy gyfeirio at swm yr ennill a dderbyniwyd yn y DU yna gallwch hawlio'r Dreth Ataliedig Arbennig mewn perthynas â rhan o'r ennill a ddygwyd i'r DU yn unig

Enghraifft 9
Nid yw domisil Lucy yn y DU. Gwerthodd rhai o'i chyfranddaliadau mewn cwmni yn Awstria ac o ganlyniad gwnaeth ennill o £20,000. Ataliwyd £3,000 mewn trethi gan Awstria. Trosglwyddwyd hanner y derbyniadau net (£8,500) i'r DU. Y Dreth Ataliedig Arbennig mewn perthynas a'r £8,500 yw £3,000 x $^{8500}/_{17000}$ = £1,500.

Rhan 2 - cyfrifo rhyddhad credyd treth dramor

Dim ond os ydych am gyfrifo eich treth y mae angen i chi ddarllen Rhan 2. Fel arall, anwybyddwch yr hyn sy'n dilyn a chwblhewch eich Ffurflen Dreth.

Rhyddhad yn erbyn Treth Incwm

Os ydych wedi talu treth dramor ar eitem o incwm sydd hefyd yn agored i dreth y DU, gallwch wneud cais am ryddhad credyd treth dramor ar gyfer y cyfan neu ran o'r dreth dramor hyd at swm y dreth yn y DU sy'n drethadwy ar yr un eitem o incwm.

Fel arfer rhaid i ryddhad gael ei gyfrifo ar wahân ar gyfer pob eitem o'ch incwm tramor. Gallai hyn olygu na allwch gael rhyddhad ar gyfer yr holl dreth dramor a dalwch.

Os ydych yn gwneud cais am ryddhad credyd ar gyfer treth dramor a dalwyd yn erbyn treth y DU ar fwy nag un eitem o incwm dramor, bydd angen i chi gwblhau Taflen Waith Rhyddhad Credyd Treth dramor ar wahân ar gyfer pob eitem o incwm. Gwnewch gymaint o lungopïau ag sydd eu hangen arnoch o'r Daflen Waith Rhyddhad Credyd Treth Dramor cyn i chi ddechrau ei chwblhau.

Mae'n rhaid i chi gwblhau'r Canllaw Cyfrifo Treth hyd at a chan gynnwys blwch c7.16 ar dudalen 14, cyn dechrau cwblhau Taflen Waith y Rhyddhad Credyd Treth Dramor.

Bydd yr holl dreth dramor y gwnewch gais am ryddhad ar ei chyfer yn ganiataol fel credyd:

- os yw eich incwm tramor i gyd yn incwm nad yw'n deillio o gynilion ac mae'r ffigur ym mlwch c5.5 yn uwch na chyfanswm yr incwm tramor y gwneir cais am ryddhad credyd ar gyfer treth dramor ac nid oes dim o'ch incwm tramor wedi bod yn atebol i dreth dramor ar gyfradd o fwy na 40%; **neu**
- os yw eich incwm tramor i gyd yn incwm sy'n deillio o gynilion (heblaw difidendau) ac mae'r ffigur ym mlwch c5.11 yn uwch na chyfanswm yr incwm tramor y gwneir cais am ryddhad credyd ar gyfer treth dramor ac nid oes dim o'ch incwm tramor wedi bod yn atebol i dreth dramor ar gyfradd o fwy na 40%; **neu**
- os yw eich incwm tramor i gyd yn incwm difidend ac mae'r ffigur ym mlwch c5.15 yn uwch na chyfanswm yr incwm tramor y gwneir cais am ryddhad credyd ar gyfer treth dramor ac nid oes dim o'ch incwm tramor wedi bod yn atebol i dreth dramor ar gyfradd o fwy na 32.5%;

Os bydd unrhyw un o'r amgylchiadau uchod yn berthnasol ni fydd angen cwblhau Taflen Waith y Rhyddhad Credyd Treth Dramor. Ym mlwch 6.9 y Tudalennau hyn nodwch swm y dreth dramor yr ydych yn gwneud cais am gredyd gan ei gopïo i flwch c7.17 yn y Canllaw Cyfrifo Treth. Fel arall mae'n rhaid i chi gwblhau un neu ragor o Daflenni Gwaith Rhyddhad Credyd Treth er mwyn pennu'r ffigur i'w roi ym mlwch 6.9.

- Dull

Er mwyn sicrhau nad yw swm y rhyddhad credyd a ganiateir ar gyfer treth dramor ar unrhyw eitem arbennig o incwm yn fwy na threth y DU a godir ar yr incwm hwnnw, mae angen cyfrifo treth y DU yn gyntaf a godir ar yr incwm hwnnw. Yna caiff y ffigur hwn ei gymharu â'r dreth dramor sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad credyd.

Os yw'r dreth dramor sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad credyd yn llai na swm treth y DU a godir ar yr un eitem o incwm, yna caniateir y cyfan o'r dreth dramor fel rhyddhad credyd treth.

Ond os yw'r dreth dramor sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad credyd yn fwy na swm treth y DU a godir ar yr un eitem o incwm, cyfyngir y rhyddhad credyd i swm treth y DU, ac ni all swm ychwanegol y dreth dramor gael ei ad-dalu neu ei ddidynnu wrth bennu swm yr incwm sy'n drethadwy yn y DU.

Os oes gennych fwy nag un eitem o incwm tramor (gan gynnwys, er enghraifft, difidendau o fwy nag un cwmni tramor), dylech gyfrifo treth y DU sy'n drethadwy ar wahân ar bob eitem, yn ei thro, gan ddechrau gyda'r eitem y codwyd y gyfradd uchaf o dreth dramor arni ac ailadrodd y cyfrifiad ar gyfer pob eitem ddilynol. Ar ôl ymdrin â phob eitem, caiff ei heithrio o'r cyfrifiad nesaf, ac yn y pen draw ceir yr eitem sydd wedi bod yn atebol i'r gyfradd isaf o dreth dramor. Fel hyn rhoddir y rhyddhad uchaf posibl.

blwch 6.9 Os ydych wedi cyfrifo rhyddhad credyd treth dramor ar eich incwm nodwch y swm rydych yn gwneud cais amdano ym mlwch 6.9. Gweler y nodiadau ar dudalen F11 hefyd o dan y pennawd 'Incwm a dderbyniwyd gan ymddiriedolaethau, cwmnïau ac endidau eraill dramor'.

Rhyddhad yn erbyn Treth Enillion Cyfalaf

Os ydych yn cyfrifo eich treth ac am wneud cais am ryddhad ar gyfer treth dramor drwy gyfrwng credyd yn erbyn eich rhwymedigaeth Treth Enillion Cyfalaf y DU gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR261: Foreign tax credit relief: capital gains*.

Mae treth dramor sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad yn erbyn Treth Enillion Cyfalaf y DU yn cynnwys unrhyw dreth dramor, nid treth enillion cyfalaf tramor o anghenraid, a dalwyd ar enillion sy'n drethadwy i dreth y DU. Er enghraifft, nid oes gan rai gwledydd dreth enillion cyfalaf ar wahân: yn lle hynny mae unigolion yn talu treth incwm ar eu henillion. Bydd y dreth incwm hon fel arfer yn gymwys ar gyfer rhyddhad credyd yn erbyn Treth Enillion Cyfalaf y DU.

blwch 6.10 Os ydych wedi cyfrifo rhyddhad credyd treth dramor ar eich enillion, nodwch y swm rydych yn gwneud cais amdano ym mlwch 6.10.

Cwblhau'r Daflen Waith Rhyddhad Credyd Treth Dramor (FTCRWS)

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn dweud wrthych sut i gwblhau'r Daflen Waith Rhyddhad Credyd Treth Dramor. Mae'r Daflen Waith yn dechrau ar dudalen FN18. Mae'r cyfeiriadau yn y nodiadau canlynol at flychau yn dechrau â'r llythyren 'c', yn cyfeirio at y Daflen Waith yn y Canllaw Cyfrifo Treth sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

Os oes gennych enillion trethadwy, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR261: Foreign tax credit relief: capital gains*, i gyfrifo eich rhyddhad credyd treth ar eich enillion cyfalaf.

Os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud, gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth.

Dim ond os ydych am gyfrifo eich treth y bydd angen i chi gwblhau'r FTCRWS.

Cwblhewch FTCRWS ar wahân ar gyfer pob eitem o incwm tramor rydych wedi talu treth dramor arnynt ac ar gyfer pob eitem rydych am wneud cais am ryddhad drwy gyfrwng credyd. Gwnewch ddigon o lungopïau o'r Daflen Waith rhag ofn y bydd angen i chi gwblhau mwy nag un FTCRWS.

blychau TC1 i TC7 Os ydych yn cwblhau eich FTCRWS gyntaf, copïwch y ffigurau ym mlychau c1.25, c1.26, c1.27, c1.28, c1.29, c1.30 a c1.31 eich Canllaw Cyfrifo Treth yn y blychau hyn.

Os ydych yn cwblhau eich ail FTCRWS neu un ddilynol, copïwch y ffigurau ym mlychau TC15, TC16, TC17, TC18, TC19, TC20 a TC21 i flychau TC1 i TC7.

blychau TC8 i TC14 Dewiswch yr eitem o incwm sy'n dangos y gyfradd uchaf o dreth dramor a dalwyd, lle rydych yn dal heb gyfrifo rhyddhad credyd treth dramor ar ei chyfer, o'ch Tudalennau Tramor. Rhowch swm yr incwm y gellir codi treth y DU arni ar gyfer yr eitem honno, fel y'i dangosir yng ngholofn E, yn y golofn briodol yn llinell 2 a hefyd ym mlwch TC14. Rhowch '0' ymhob colofn arall yn llinell 2.

blychau TC23 Edrychwch ar flychau c2.1 i c2.15 y Canllaw Cyfrifo Treth. Os bydd unrhyw un o'r didyniadau o incwm yr ydych wedi gwneud cais amdanynt yn ymwneud yn benodol â'r eitem o incwm ym mlychau TC8 i TC13 uchod ac yn dibynnu ar swm yr eitem o incwm, rhowch swm y didyniadau ym mlwch TC23.

Enghraifft 10
Mae Neil yn 34 oed ac mae'r elw o'i fusnes yn £12,000 gan gynnwys £4,000 a oedd yn atebol i dreth dramor, ac mae wedi talu cyfraniadau pensiwn personol o £1,800. Ar sail incwm o £12,000, rhoddir rhyddhad ar ffurf didyniad ar y £1,800. Fodd bynnag, os eithrir y £4,000, sef yr elw tramor, cyfyngir y rhyddhad ar gyfer y blwydd-dal ymddeol i £1,400 (sef 17.5% o weddill yr 'enillion perthnasol net' o £8,000). Felly swm y didyniad y gellir ei briodoli i'r elw tramor yw £1,800 *llai* £1,400 = £400. Dyma'r ffigur y dylai Neil ei nodi ym mlwch TC23.

blychau TC25 Os cawsoch eich geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1941, rhowch '0' ym mlwch TC25.

Os cawsoch chi eich geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1941, bydd angen i chi weithio'r Lwfansau Personol allan a fyddai'n ddyledus os mai'r incwm oedd yr hyn a ddangoswyd ym mlwch c1.31 o'r Canllaw Cyfrifo Treth, fel y'i gostyngwyd gan yr eitem o incwm a ddidynnwyd ym mlychau TC8 i TC13. Mae tudalen 24 y Canllaw Cyfrifo Treth yn egluro sut i gyfrifo'r lwfans personol ar sail oedran. Cwblhewch flychau A i C isod.

Addasiad y lwfans ar sail oedran - cwblhewch ar gyfer pob FTCRWS

Lwfans ar sail oedran wedi'i ddiwygio o flwch c10.11	**A**	£
Lwfans y gwnaed cais amdano yn flaenorol ym mlwch c2.19 neu o flwch A o unrhyw daflen waith ar gyfer addasiad blaenorol	**B**	£
Blwch A *llai* blwch B	**C**	£

Copïwch y swm ym mlwch C i flwch TC25. Bydd y blychau canlynol, TC27 i TC38, yn dyrannu'r lwfans ychwanegol yn y modd mwyaf manteisiol.

blychau TC39 i TC107 Cwblhewch y blychau hyn drwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar y FTCRWS, ond gweler y nodiadau ar gyfer blychau TC94 a TC99.

blwch TC94 Os oes gennych enillion ar bolisïau yswiriant ac ati ac yn gymwys ar gyfer Rhyddhad Haenen Uchaf, bydd rhaid i chi gyfrifo'r swm a fyddai'n ddyledus pe bai eich incwm yr un, ag ym mlwch c1.31 y Canllaw Cyfrifo Treth, fel y caiff ei ostwng gan yr eitem incwm a ddidynnwyd ym mlychau TC8 i TC13. Mae tudalennau 28 a 29 y Canllaw hwnnw yn egluro sut mae cyfrifo'r Rhyddhad Haenen Uchaf. Nodwch y swm wedi'i ddiwygio ym mlwch TC94.

blwch TC99 Os ydych yn gymwys ar gyfer lwfans pâr priod mae'n rhaid i chi weithio allan y lwfans a fyddai'n ddyledus pe bai eich incwm yr hyn sydd ym mlwch c1.31 y Canllaw Cyfrifo Treth, a ostyngwyd gan yr eitem o incwm a ddidynnwyd ym mlychau TC8 i TC13. Mae tudalennau 25 a 26 y Canllaw Cyfrifo Treth yn egluro sut mae gweithio allan beth yw'r lwfans. Nodwch y lwfans wedi'i adolygu ym mlwch TC99.

blwch TC108 Os ydych yn cwblhau eich FTCRWS gyntaf, nodwch y ffigur ym mlwch c7.1 eich Canllaw Cyfrifo Treth *llai* cyfanswm blychau c7.2, c7.4, c7.6, c7.8, c7.13 c7.15 a c7.16.

Fel arall nodwch y ffigur ym mlwch TC107 y FTCRWS olaf a gwblhawyd gennych.

blwch TC109 Tynnwch y swm ym mlwch TC107 o'r un ym mlwch TC108 gan roi'r canlyniad ym mlwch TC109. Hwn yw swm y Dreth Incwm ar eich cyfradd ffiniol ar yr eitem o incwm ym mlychau TC8 i TC13 uchod.

blwch TC110 O golofn C yn eich Tudalennau Tramor, nodwch swm y dreth dramor a dalwyd ar yr eitem o incwm ym mlychau TC8 i TC13 o'r FTCRWS hon.

blwch TC111 Nodwch yr isaf o'r ffigurau ym mlychau TC109 a TC110.

Nawr cwblhewch FTCRWS arall ar gyfer eich eitem nesaf o incwm. Yn olaf, adiwch y ffigurau ym mlwch TC111 ymhob FTCRWS yr ydych wedi ei chwblhau gan roi'r cyfanswm ym mlwch 6.9 eich Tudalennau Tramor, a blwch c7.17 yn y Canllaw Cyfrifo Treth.

Taflen Waith Rhyddhad Credyd Treth Dramor (FTCRWS)

CYMORTH CYFRIFO

Os bydd unrhyw flwch ar y dudalen hon yn dangos swm negyddol, rhowch sero '0' yn lle'r swm negyddol.

Incwm nad yw'n deillio o gynilion ac ati.

o flwch c1.25 neu flwch TC15 o FTCRWS flaenorol **TC1**

£

Cyfandaliadau, ac ati

o flwch c1.26 neu flwch TC16 o FTCRWS flaenorol **TC2**

£

Incwm nad yw'n deillio o gynilion, ac ati â threth dybiannol

o flwch c1.30 neu flwch TC17 o FTCRWS flaenorol **TC3**

£

Didynnwch yr eitem o incwm y gwneir cais am ryddhad credyd treth dramor mewn perthynas â hi ar y daflen waith hon (gweler tudalen FN16)

TC8

£

TC9

£

TC10

£

blwch TC1 *llai* TC8 **TC15**

£

blwch TC2 *llai* TC9 **TC16**

£

blwch TC3 *llai* TC10 **TC17**

£

o flwch c2.23 neu flwch TC26 o FTCRWS flaenorol **TC22**

£

Nodwch ym mlwch TC23, unrhyw ddidyniad o gam 2 yn y Canllaw Cyfrifo Treth y gellir ei briodoli'n benodol i'r eitem a nodwyd ym mlychau TC8 i TC13 (gweler tudalen FN16)

TC23

£

blwch TC22 *llai* TC23 **TC24**

£

Lwfans ychwanegol ar sail oedran sy'n gysylltiedig ag incwm sy'n ddyledus o ganlyniad i eithrio'r eitem o incwm ym mlychau TC8 i TC13

TC25

£

TC24 + TC25 **TC26**

£

blwch TC15 *llai* TC26 **TC27**

£

blwch TC26 *llai* TC15 **TC28**

£

blwch TC16 *llai* TC28 **TC29**

£

blwch TC28 *llai* TC16 **TC30**

£

blwch TC17 *llai* TC30 **TC31**

£

Nodiadau ar TRAMOR

Incwm cynilion, ac ati (nid difidendau)

o flwch c1.27 neu flwch TC18 o FTCRWS flaenorol **TC4**

£

Enillion ar bolisïau bywyd â threth wedi ei thrin fel petai wedi ei thalu

o flwch c1.29 neu flwch TC19 o FTCRWS flaenorol **TC5**

£

Difidendau a drethwyd ar 10%

o flwch c1.28 neu flwch TC20 o FTCRWS flaenorol **TC6**

£

Cyfansymiau

o flwch c1.31 neu flwch TC21 o FTCRWS flaenorol **TC7**

£

TC11

£

TC12

£

TC13

£

TC14

£

blwch TC4 *llai* TC11 **TC18**

£

blwch TC5 *llai* TC12 **TC19**

£

blwch TC6 *llai* TC13 **TC20**

£

blwch TC7 *llai* TC14 **TC21**

£

CYMORTH CYFRIFO

Os bydd unrhyw flwch ar y dudalen hon yn dangos swm negyddol, rhowch sero '0' yn lle'r swm negyddol.

blwch TC30 *llai* TC17 **TC32**

£

blwch TC18 *llai* TC32 **TC33**

£

blwch TC32 *llai* TC18 **TC34**

£

blwch TC19 *llai* TC34 **TC35**

£

blwch TC34 *llai* TC19 **TC36**

£

blwch TC20 *llai* TC36 **TC37**

£

blwch TC21 *llai* TC26 **TC38**

£

Taflen Waith Rhyddhad Credyd Treth Dramor (FTCRWS) - parhad

CYMORTH CYFRIFO

Os bydd unrhyw flwch ar y dudalen hon yn dangos swm negyddol, rhowch sero '0' yn lle'r swm negyddol.

Y gyfradd ddechreuol

TC39 £ 2,090

Haen gyfradd sylfaenol estynedig

o flwch c4.7 **TC40** £

Dyrannwch incwm nad yw'n deillio o gynilion i'r haenau treth

o flwch TC27 **TC41** £

o flwch TC31 **TC42** £

TC41 + TC42 **TC43** £

blwch TC39 *llai* TC44 **TC48** £

blwch TC40 *llai* TC46 **TC49** £

Dyrannwch Gynilion ac ati, ac enillion ar bolisïau bywyd heb dreth dybiannol (heblaw difidendau) i'r haenau treth

o flwch TC33 **TC50** £

blwch TC48 *llai* TC51 **TC55** £

blwch TC49 *llai* TC53 **TC56** £

Dyrannwch Ddifidendau ac ati i'r haenau treth

o flwch TC37 **TC57** £

blwch TC55 *llai* TC58 **TC62** £

blwch TC56 *llai* TC60 **TC63** £

Dyrannwch Gyfandaliadau i'r haenau treth

o flwch TC29 **TC64** £

blwch TC62 *llai* TC65 **TC69** £

blwch TC63 *llai* TC67 **TC70** £

Dyrannwch enillion ar bolisïau bywyd â threth yr ystyrir ei bod wedi ei thalu

o flwch TC35 **TC71** £

Nodiadau ar TRAMOR

CYMORTH CYFRIFO

Os bydd unrhyw flwch ar y dudalen hon yn dangos swm negyddol, rhowch sero '0' yn lle'r swm negyddol.

yr isaf o flychau TC39 a TC43
TC44
£

blwch TC43 *llai* TC44
TC45
£

yr isaf o flychau TC40 a TC45
TC46
£

blwch TC45 *llai* TC46
TC47
£

yr isaf o flychau TC48 a TC50
TC51
£

blwch TC50 *llai* TC51
TC52
£

yr isaf o flychau TC49 a TC52
TC53
£

blwch TC52 *llai* TC53
TC54
£

yr isaf o flychau TC55 a TC57
TC58
£

blwch TC57 *llai* TC58
TC59
£

yr isaf o flychau TC56 a TC59
TC60
£

blwch TC59 *llai* TC60
TC61
£

yr isaf o flychau TC62 a TC64
TC65
£

blwch TC64 *llai* TC65
TC66
£

yr isaf o flychau TC63 a TC66
TC67
£

blwch TC66 *llai* TC67
TC68
£

yr isaf o flychau TC69 a TC71
TC72
£

blwch TC71 *llai* TC72
TC73
£

yr isaf o flychau TC70 a TC73
TC74
£

blwch TC73 *llai* TC74
TC75
£

Taflen Waith Rhyddhad Credyd Treth Dramor (FTCRWS) - parhad

Incwm nad yw'n deillio o gynilion a chyfandaliadau

CYMORTH CYFRIFO

Os bydd unrhyw flwch ar y dudalen hon yn dangos swm negyddol, rhowch sero '0' yn lle'r swm negyddol.

TC44 + TC65 **TC76**
£

blwch TC76 x 10% **TC77**
£

TC46 + TC67 **TC78**
£

blwch TC78 x 22% **TC79**
£

TC47 + TC68 **TC80**
£

blwch TC80 x 40% **TC81**
£

Incwm sy'n deillio o gynilion ac enillion o bolisïau bywyd

o flwch TC51 **TC82**
£

blwch TC82 x 10% **TC83**
£

TC53 + TC72 + TC74 **TC84**
£

blwch TC84 x 20% **TC85**
£

TC54 + TC75 **TC86**
£

blwch TC86 x 40% **TC87**
£

Incwm difidend

blychau TC58 + TC60 **TC88**
£

blwch TC88 x 10% **TC89**
£

o flwch TC61 **TC90**
£

blwch TC90 x 32.5% **TC91**
£

cyfanswm y golofn uchod **TC92**
£

copïwch flwch TC92 i flwch TC93

Taflen Waith Rhyddhad Credyd Treth Dramor (FTCRWS) - parhad

Nawr cyfrifwch y dreth sy'n ddyledus.

CYMORTH CYFRIFO

Os bydd unrhyw flwch ar y dudalen hon yn dangos swm negyddol, rhowch sero '0' yn lle'r swm negyddol.

Treth Incwm sy'n ddyledus — o flwch TC92 **TC93** £

Rhyddhad haenen uchaf (gweler tudalen FN16 y Nodiadau) — o flwch c13.28 **TC94** £

Rhyddhad Ymddiriedolaethau Cyfalaf Mentro — o flwch c7.4 **TC95** £

Rhyddhad Cynllun Buddsoddiant Menter — o flwch c7.6 **TC96** £

Rhyddhad Treth am Fuddsoddiad Cymunedol — o flwch c7.8 **TC97** £

Cynhaliaeth ac alimoni — o flwch 15.2 **TC98** £

Lwfans Pâr Priod (gweler tudalen FN17 y Nodiadau) — **TC99** £

Gwarged lwfans pâr priod — o flwch 16.17 **TC100** £

cyfanswm blychau TC98 i TC100 **TC101** £

TC101 x 10% **TC102** £

Treth a ystyrir ei bod wedi ei thalu ar enillion ar bolisïau bywyd — o flwch TC71 **TC103** £

TC103 x 20% **TC104** £

Treth dybiannol arall — o flwch c15.28 **TC105** £

cyfanswm y golofn uchod **TC106** £

TC93 *llai* TC106 **TC107** £

Treth Incwm sy'n ddyledus cyn rhyddhad credyd treth dramor **TC108** £

(blwch c7.1 llai cyfanswm c7.2, c7.4, c7.6, c7.8, c7.13, c7.15 a c7.16, neu flwch TC107 o'r FTCRWS flaenorol)

Treth Incwm sy'n ddyledus ar yr eitem o incwm ym mlychau TC8 i TC13 ar dudalennau FN18 a FN19

TC108 *llai* TC107 **TC109** £

Treth dramor a dalwyd ar yr eitem o incwm ym mlychau TC8 i TC13 ar dudalennau FN18 a FN19 **TC110** £

Rhyddhad credyd treth dramor mewn perthynas â'r eitem o incwm ym mlychau TC8 i TC13 ar dudalennau FN18 a FN19

yr isaf o TC109 a TC110 **TC111** £

Nawr cwblhewch FTCRWS arall ar gyfer eich eitem nesaf o incwm.

Fel arall adiwch y ffigurau ym mlwch TC111 ymhob FTCRWS gan roi'r cyfanswm ym mlwch 6.9 ar eich Tudalennau Tramor.

Gwledydd gyda Chytundebau Trethiant Dwbl â'r DU - cyfraddau treth ataliedig

Dengys y Tabl hwn uchafswm y cyfraddau treth y gall y gwledydd hynny gyda Chytundeb Trethiant Dwbl â'r DU eu codi ar breswylydd yn y DU ar daliadau difidendau, llog, breindaliadau a ffioedd rheoli/technegol. **Dim ond y cytundebau sydd ar hyn o bryd mewn grym a gynhwysir yn y tabl.**

Talfyriadau: DE = Dim Erthygl. Felly gall y wlad dramor drethu'r incwm yn unol â'i chyfraith ddomestig ei hun.
A = Mae amod 'atebol i dreth'.

Gwlad	Difidendau a dalwyd i fuddsoddwyr portffolio	Llog	Breindaliadau	Ffioedd rheoli/technegol	Nodiadau
Antigua a Barbuda	Sero (A)	DE	Sero (A)	DE	
Yr Ariannin	15%	12%	15% (Nodyn 1)	DE	1. 3% ar newyddion. 5% ar freindaliadau hawlfraint heblaw ar gyfer ffilmiau a theledu. 10% ar daliadau am ddefnyddio offer diwydiannol neu wyddonol
Awstralia	15% (Nodyn 1)	10%	5%	DE	1. Dim ond difidendau heb eu ffrancio sy'n dwyn treth ataliedig
Awstria	15%	Sero	Sero	DE	
Azerbaijan	15%	10%	10% (Nodyn 1)	DE	1. 5% ar freindaliadau hawlfraint
Bangladesh	15%	10%	10%	DE	
Barbados	Sero (A)	15% (A)	Sero (A) (Nodyn 1)	DE	1. 15% ar freindaliadau sinematograffi a theledu.
Gwlad Belg	10%	15%	Sero	DE	
Belarus*	Sero	Sero	Sero	DE	
Belize	Sero (A)	DE	Sero (A)	DE	
Bolifia	15%	15%	15%	DE	
Bosnia -Herzegovina	15%	10%	10%	DE	
Botswana	15%	15%	15%	DE	
Brunei	Sero (A)	DE	Sero (A)	DE	
Bwlgaria	10%	Sero	Sero	DE	
Canada	15%	10% (Nodyn 1)	10% (Nodyn 2)	DE	1. Sero os gwarentir y benthyciad gan ECGD y DU neu EDC Canada neu os yw'n fond llywodraeth Canada neu'n fond awdurdod lleol. 2. Sero os ydynt yn freindaliadau hawlfraint (ac eithrio ffilmiau a theledu.)
Chile	15%	15%	10%	DE	
Tseina	10%	10% (Nodyn 1)	10% (Nodyn 2)	10% (Nodyn 3)	1. Wedi'i heithrio o dan rai amgylchiadau (Erth 11 (3)). 2. Taliadau ar gyfer defnyddio neu'r hawl i ddefnyddio, unrhyw offer diwydiannol, masnachol neu wyddonol 10% o 70% o swm gros y breindal. 3. Ar 70% o'r ffioedd gros.
Croatia	15%	10%	10%	DE	

**Cytundeb y DU/Yr Undeb Sofietaidd yn gymwys*

Nodiadau ar TRAMOR

Gwlad	Difidendau a dalwyd i fuddsoddwyr portffolio	Llog	Breindaliadau	Ffioedd rheoli/technegol	Nodiadau
Cyprus	Sero	10%	Sero (Nodyn 1)	DE	1. 5% ar freindaliadau ffilm a theledu.
Y Weriniaeth Siec	15%	Sero	10% (Nodyn 1)	DE	1. Sero ar freindaliadau hawlfraint
Denmarc	15%	Sero	Sero	DE	
Yr Aifft	20%	15% (Nodyn 1)	15%	DE	1. Wedi'i heithrio os gwarentir y benthyciad gan ECGD y DU.
Estonia	15%	10% (Nodyn 1)	10% (Nodyn 2)	DE	1. Wedi'i heithrio o dan rai amgylchiadau (gweler Erth 11 (3)) 2. 5% ar freindaliadau ar gyfer defnyddio offer diwydiannol, masnachol neu wyddonol (Erth 12(2)(6))
Ynysoedd y Falkland	(Nodyn 1)	Dim (Nodyn 2)	Sero	15%	1. Gofynnwch am gael gweld y Llawlyfr Trethiant Dwbl yn eich Swyddfa Cyllid a Thollau EM. 2. Wedi'i heithrio os gwarentir y benthyciad gan ECGD y DU.
Fiji	15%	10%	15% (Nodyn 1)	15%	1. Sero os ydynt yn freindaliadau hawlfraint (heblaw ffilmiau a theledu).
Y Ffindir	5%	Sero	Sero	DE	
Ffrainc	15% (Nodyn 1)	Sero	Sero	DE	1. Gofynnwch am gael gweld y Llawlyfr Trethiant Dwbl DT7259, yn eich Swyddfa Cyllid a Thollau EM ar gyfer cymhwyso amod atebol i dreth i daliad o 'avoir fiscal'.
Gambia	Sero (A)	15% (A)	12.5% (A)	15% (A)	
Yr Almaen	15% (A)	Sero (A)	Sero (A)	DE	
Ghana	15% (A)	12.5% (A)	Sero (A)	DE	
Groeg	DE	Sero (A)	Sero (A)	DE	
Grenada	Sero (A)	DE	Sero (A)	DE	
Guernsey	DE	DE	DE	DE	
Guyana	15%	15% (A) (Nodyn 1)	10%	10% (Nodyn 2)	1. Wedi'i heithrio os gwarentir y benthyciad gan ECGD y DU. 2. Canran llai lle mae Gweinidog Cyllid Guyana yn cymhwyso Adran 39 (10) Deddf Treth Incwm, Pennod 81:01.
Hwngari	15%	Sero	Sero	DE	
Gwlad yr Iâ	15%	Sero	Sero	DE	
India	15%	15%	20% (Nodyn 1)	DE (Nodyn 1)	1. Mae'r erthygl yn cynnwys ffioedd ar gyfer gwasanaethau technegol. Ar gyfer y pum mlynedd gyntaf y Confensiwn, 15% os mai'r Llywodraeth yw'r talwr. 15% ar gyfer pob breindal, ac ati ar ôl y pum mlynedd. Rhai ffurfiau ar freindaliadau,10% drwy gydol y cyfnod.
Indonesia	15%	10% (A)	15% (Nodyn 1)	DE	1. 10% ar daliadau ar gyfer defnyddio offer diwydiannol, masnachol neu wyddonol (Erth 12(2)(6)).
Gweriniaeth Iwerddon	15% (Nodyn 1)	Sero	Sero	DE	1. Wedi'i heithrio pan gaiff ei thalu i elusen, cronfa flwydd-dâl neu gwmnïau yswiriant mewn perthynas â busnes cronfa bensiwn.

Gwlad	Difidendau a dalwyd i fuddsoddwyr portffolio	Llog	Breindaliadau	Ffioedd rheoli/technegol	Nodiadau
Ynys Manaw	DE	DE	DE	DE	
Israel	15% (A)	15% (A)	15% (A)	DE	
Yr Eidal	15% (A)	10%	8%	DE	
Y Traeth Ifori	15% (Nodyn 1)	15%	10%	10%	1. 18% pan gaiff ei thalu gan gwmni o'r Traeth Ifori a eithrir o dalu treth neu sy'n talu ar lai na'r cyfraddau arferol ar elw.
Jamaica	15%	12.5% (Nodyn 1)	10%	12.5%	1. Wedi'i heithrio os gwarentir y benthyciad gan ECGD y DU.
Siapan	15%	10%	10%	DE	
Jersey	DE	DE	DE	DE	
Yr Iorddonen	10%	10%	10%	DE	
Kazakhstan	15%	10% (Nodyn 1)	10% (Nodyn 2)	DE	1. Wedi'i heithrio os gwarentir y benthyciad gan ECGD y DU 2. Oni bai y dewisir sail elw net.
Kenya	15% (A)	15% (A)	15% (A)	12.5%	
Kiribati	Sero (A)	DE	Sero (A)	DE	
Korea	15%	10% (Nodyn 1)	10% (Nodyn 2)	DE	1. Wedi'i heithrio os gwarentir y benthyciad gan ECGD y DU. 2. 2% ar daliadau prydlesu offer.
Kuwait	15%	Sero	10%	DE	
Latfia	15%	10% (Nodyn 1)	10%	DE	1. Wedi'i heithrio os gwarentir y benthyciad gan ECGD y DU neu gan Fanc Lloegr
Lesotho	Sero (A)	DE	Sero (A)	DE	
Lithwania	15%	10% (Nodyn 1)	10% (Nodyn2)	DE	1. Wedi'i heithrio o dan rai amgylchiadau (Erth 12(2)(6)). 2. 5% ar freindaliadau am ddefnyddio offer diwydiannol, masnachol neu wyddonol (Erth 12(2)(6)).
Lwcsembwrg	15%	Sero	5%	DE	
Macedonia	15%	10%	10%	DE	
Malawi	Sero (A)	Sero (A)	Sero (A)	DE	
Malaysia	10%	10% (A) (Nodyn 1)	8%	10%	1. Wedi'i heithrio os yw'n fenthyciad a gymeradwywyd (gweler Erth 11).
Malta	(Nodyn1)	10% (A)	10% (A)	DE	1. Nid yw'r dreth i fod yn uwch na'r hyn a godir ar yr elw y telir y difidendau ohono.
Mawrisiws	15%	Dim terfyn (Nodyn 1)	15% (A)	DE	1. Wedi'i heithrio pan gaiff ei thalu i fanciau'r DU.
Mecsico	Sero	15% (Nodyn 1)	10%	DE	1. Bydd cyfradd is neu eithriad yn gymwys o dan rai amgylchiadau (gweler Erth 11(2)).
Mongolia	15%	10%	5%	DE	
Montserrat	Sero (A)	DE	Sero (A)	DE	
Morocco	25%	10%	10%	DE	
Myanmar (Burma gynt)	Sero (A)	DE	Sero (A)	DE	

Nodiadau ar TRAMOR

Gwlad	Difidendau a dalwyd i fuddsoddwyr portffolio	Llog	Breindaliadau	Ffioedd rheoli/technegol	Nodiadau
Namibia	15%	20%	wedi'i heithrio (A) (Nodyn 1)	DE	1. Breindaliadau hawlfraint yn unig. Breindaliadau eraill: y lleiaf o 5% ac un hanner o'r dreth a godir fel arall.
Yr Iseldiroedd	15%	Sero	Sero	DE	
Seland Newydd	15%	10%	10%	DE	
Nigeria	15% (A)	12.5% (A)	12.5% (A)	DE	
Norwy	15%	Sero	Sero	DE	
Oman	10%	Sero	Sero	DE	
Pacistan	20% (Nodyn 1)	15%	12.5%	12.5%	1. Gofynnwch am gael gweld y Llawlyfr Trethiant Dwbl DT 14956 ac Erthygl 10, yn eich Swyddfa Cyllid a Thollau EM.
Papua Gini Newydd	17%	10%	10%	10%	
Ynysoedd y Philipinau	25%	15% (Nodyn 1)	25% (Nodyn 2)	DE	1. 10% pan gaiff ei thalu gan fondiau dyroddiad cyhoeddus ac ati. Wedi'i heithrio pan warentir y benthyciad gan asiantaeth llywodraeth y DU. 2. 15% ar freindaliadau ar gyfer ffilmiau, teledu neu radio.
Gwlad Pwyl	15%	Sero	10%	DE	
Portiwgal	15%	10% (A)	5% (A)	DE	
Rwmania	15%	10%	15% (Nodyn 1)	12.5% (Nodyn 2)	1. 10% ar freindaliadau hawlfraint. 2. Mae'r gyfradd yn gymwys i gomisiynau. Gofynnwch am gael gweld y Llawlyfr Trethiant Dwbl DT 16054, yn eich Swyddfa Cyllid a Thollau EM.
Rwsia*	10%	Sero	Sero	DE	
St Christopher-Nevis (St Kitts)	Sero (A)	DE	Sero (A)	DE	
Serbia a Montenegro	15%	10%	10%	DE	
Sierra Leone	Sero (A)	DE	Sero (A)	DE	
Singapore	0% (Nodyn 1)	10%	10%	DE	1. Mae'r Cytundeb yn Caniatáu 15% ond ar hyn o bryd nid oes trethi ataliedig ar ddifidendau
Gweriniaeth Slofacia	15%	Sero	10% (Nodyn1)	DE	1. Sero ar freindaliadau hawlfraint (gweler Erth 12 (3)(6).
Slofenia	15%	10%	10%	DE	
Ynysoedd Solomon	Sero (A)	DE	Sero (A)	DE	
De'r Affrig	15%	Sero (A)	Sero (A)	DE	
Sbaen	15%	12%	10%	DE	
Sri Lanka	Dim terfyn	10% (Nodyn 1)	10% (Nodyn 2)	DE	1. Dim ond pan gaiff ei thalu ar fenthyciad ac ati, a wnaed ar ôl 21 Mehefin 1989 y caiff ei gostwng i'r gyfradd hon. 2. Dim ond pan ganiateir hawliau ar ôl 21 Mehefin 1989 y caiff ei gostwng i'r gyfradd hon.

**Cytundeb y DU/Undeb Sofietaidd yn gymwys*

Nodiadau ar TRAMOR

Gwlad	Difidendau a dalwyd i fuddsoddwyr portffolio	Llog	Breindaliadau	Ffioedd rheoli/technegol	Nodiadau
Y Swdan	15% (Nodyn 1)	15% (A)	10% (A)	DE	1.Wedi'i heithrio os yw'r difidendau wedi'u heithrio o dan gyfraith Swdan pan gaiff ei thalu i rai di-breswyl.
Swaziland	15%	DE	Wedi'i heithrio	DE	
Sweden	5% (Nodyn 1)	Sero	Sero	DE	1. Yn drethadwy hefyd yn Sweden os yw'r derbynnydd yn ddinesydd o Sweden ond yn preswylio yn y DU.
Y Swisdir	15%	Sero	Sero	DE	
Taiwan	10% (A)	10% (A)	10% (A)	DE	
Tajikistan*	Sero	Sero	Sero	DE	
Thailand	20% (Nodyn 1)	25% (Nodyn 2)	5% (Nodyn 3)	DE	1. Dim ond i ddifidend gan gwmni sy'n cyflawni ymrwymiad diwydiannol y mae'r gyfradd hon yn gymwys. 2. 10% os caiff ei thalu i sefydliad ariannol. 3. 15% ar freindaliadau patent.
Trinidad a Tobago	20%	10%	10% (Nodyn 1)	10%	1. Caiff breindaliadau hawlfraint eu heithrio.
Twnisia	20%	12%	15%	DE	
Twrci	20%	15%	10%	DE	
Twfalw	Sero (A)	DE	Sero (A)	DE	
Twrcmenistan*	Sero	Sero	Sero	DE	
Uganda	15%	15%	Sero (A)	DE	
Yr Wcráin	10% (A)	Sero (A)	Sero	DE	
Unol Daleithiau America	15%	Sero	Sero	DE	
Uzbekistan	10%	5%	5%	DE	
Venezuela	10%	5% (Nodyn 1)	7%	DE	1. Wedi'i heithrio os caiff ei thalu ar fenthyciad a warentir gan ECGD y DU
Fietnam	15%	10% (A)	10% (A)	DE	
Sambia	15% (A)	10% (A)	10% (A)	DE	
Simbabwe	20% (A)	10% (A) (Nodyn 1)	10% (A)	10% (A)	1. Wedi'i heithrio os caiff ei thalu ar fenthyciad a warentir gan ECGD y DU.

**Cytundeb y DU/Undeb Sofietaidd yn gymwys*

Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.